



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# ARFARNIAD CYNALIADWYEDD INTEGREDIG O'R FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL

Adroddiad Cwmpasu Terfynol

EBRILL 2018

Incorporating

**EC HARRIS**  
BUILT ASSET  
CONSULTANCY





## RHEOLI FERSIYNAU

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Newidiadau
101-UA009148-UE31-06-F	12-04-2017	ST/GC	Fersiwn derfynol ar gyfer ymgynghori
101-UA009148-UE31-06-G	12-09-2017	ST/GC	Fersiwn ddrafft yn dilyn sylwadau'r ymgynghoriad
101-UA009148-UE31-06-H	7-11-2017	ST/GC	Fersiwn derfynol

Paratowyd yr adroddiad hwn dyddiedig Ebrill 2018 ar gyfer Llywodraeth Cymru (y "Cleient") yn unol â'r telerau ac amodau penodi dyddiedig 02 Rhagfyr 2016 (y "Penodiad") rhwng y Cleient ac **Arcadis** at y dibenion a nodir yn y Penodiad. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni chaiff unrhyw unigolyn/unigolion eraill ddefnyddio neu ddibynnu ar yr adroddiad hwn na'i gynnwys, ac nid yw Arcadis yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddefnydd neu ddibyniaeth o'r fath gan unrhyw drydydd parti.

# CYNNWYS

BYRFODDAU .....	IV
GEIRFA .....	VI
<b>1 CEFNDIR I'R FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL A DIBEN ADRODDIAD CWMPASU HWN YR ARFARNIAD CYNALIADWYEDD INTEGREDIG .....</b>	<b>1</b>
1.1 Cyflwyniad.....	1
1.2 Beth yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol?.....	1
1.3 Beth yw Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig?.....	2
1.4 Sut mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn berthnasol i'w gilydd?.....	4
1.5 Sut mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn berthnasol i strategaethau eraill Llywodraeth Cymru? .....	9
1.6 A fydd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei gynnal?.....	11
1.7 Disodli Cynllun Gofodol Cymru .....	12
1.8 Pa waith ymgynghori a wnaed ar yr Adroddiad Cwmpasu?.....	12
<b>2 PROSES YR ARFARNIAD CYNALIADWYEDD .....</b>	<b>13</b>
2.1 Camau ym Mhroses yr Arfarniad Cynaliadwyedd.....	13
2.5 Dull integredig o asesu effaith .....	16
<b>3 ADOLYGIAD O GYNLLUNIAU, RHAGLENNI AC AMCANION AMGYLCHEDDOL PERTHNASOL (A1).....</b>	<b>19</b>
3.1 Cyflwyniad.....	19
3.2 Themâu Allweddol yn Deillio o'r Adolygiad .....	21
<b>4 GWYBODAETH SYLFAENOL A NODI MATERION A CHYFLEOEDD CYNALIADWYEDD ALLWEDDOL (A2 AC A3).....</b>	<b>24</b>
4.1 Cyflwyniad.....	24
4.2 Methodoleg .....	24
4.3 Materion a Chyfleoedd Cynaliadwyedd Allweddol .....	25
<b>5 Y BROSES ARFARNU A FFRAMWAITH YR ARFARNIAD CYNALIADWYEDD INTEGREDIG (A4) .....</b>	<b>40</b>
5.1 Y Broses Arfarnu .....	40
5.2 Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig .....	44
<b>6 Y CAMAU NESAF .....</b>	<b>55</b>
6.1 Cyffredinol.....	55

## ATODIADAU

Atodiad A: Adolygiad o Gynlluniau, Rhaglenni ac Amcanion Diogelu'r Amgylchedd Perthnasol

Atodiad B: Data Sylfaenol, Materion Allweddol a Chyfleoedd

Atodiad C: Cydweddoldeb Mewnol Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

## Byrfoddau

Byrfodd	Diffiniad
AHNE	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
AQMA	Ardal Rheoli Ansawdd Aer
BAP	Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth
CO <sub>2</sub>	Carbon Deuocsid
CRIA	Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant
yACA	Ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig
DBEIS	Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
DEFRA	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
DNS	Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol
EqIA	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
GDP	Cynnyrch Domestig Gros
GVA	Gwerth Ychwanegol Gros
HIA	Asesu'r Effaith ar Iechyd
HRA	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
ISA	Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig
LNR	Gwarchodfa Natur Leol
LSOA	Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is
LWS	Safle Bywyd Gwyllt Lleol
NDF	Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
GNG	Gwarchodfa Natur Genedlaethol
NQF	Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol
AGA	Ardal Gwarchodaeth Arbennig
dAGA	Darpar Ardal Gwarchodaeth Arbennig
SA	Arfarniad Cynaliadwyedd
ACA	Ardal Cadwraeth Arbennig

Byrfodd	Diffiniad
SEA	Asesiad Amgylcheddol Strategol
SoNaRR	Yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol
SPP	Datganiad ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd
SoDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
UNCRC	Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
WSP	Cynllun Gofodol Cymru

## Geirfa

Terminoleg	Diffiniad
Treftadaeth Ddiwylliannol	Y term hwn yw Pwnc y Gyfarwydddeb Asesu Amgylcheddol Strategol – Treftadaeth Ddiwylliannol sy'n cynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol.
Ased Diwylliannol/ Amgylchedd Diwylliannol	Mae'r term hwn yn cyfeirio at y celfyddydau, cerddoriaeth, llenyddiaeth, chwaraeon a threftadaeth.
Cydnherthedd Ecosystemau	Gallu ecosystemau i ymdrin â phethau sy'n tarfu arnynt, naill ai drwy eu gwrthsefyll, adfer ar eu hôl, neu addasu iddynt, wrth gynnal eu gallu i ddarparu gwasanaethau a buddion yn awr ac yn y dyfodol.
Ased Hanesyddol	<p>Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys nodweddion hanesyddol unigol a adnabyddir ar y cyd fel asedau hanesyddol. Mae enghreifftiau o'r hyn a all fod yn ased hanesyddol yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth;</li> <li>• Asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig;</li> <li>• Parciau a gerddi hanesyddol;</li> <li>• Trefluniau;</li> <li>• Tirweddau hanesyddol;</li> <li>• Safleoedd Treftadaeth y Byd; a</li> <li>• Gweddillion archeolegol (gan gynnwys henebion cofrestredig ac archeoleg forol).</li> </ul>
Arloesedd Gweithredol <sup>1</sup>	<p>Mae diffiniad y DU o arloesedd yn dilyn diffiniad yr UE a fabwysiadwyd gan Eurostat. Mae'r diffiniad hwn o 'arloesedd gweithredol' yn cynnwys unrhyw weithgareddau a ddisgrifir isod yn oedd mentrau yn gysylltiedig â nhw yn ystod cyfnod yr arolwg:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cyflwyno cynnyrch (nwyddau neu wasanaeth) neu broses sy'n newydd neu'n sylweddol well;</li> <li>2. Ymgysylltu â phrosiectau arloesedd nad ydynt wedi eu cwblhau neu y rhoddwyd y gorau iddynt;</li> <li>3. Ffurfiâu newydd neu sylweddol well o drefniadaeth, strwythurau neu arferion busnes a chysyniadau neu strategaethau; a</li> <li>4. Gweithgareddau buddsoddi mewn meysydd megis ymchwil a datblygu mewnol, hyfforddiant, caffael gwybodaeth allanol neu beiriannau a chyfarpar sy'n gysylltiedig â gweithgareddau arloesi.</li> </ol> <p>Nid yw'r diffiniad yn cynnwys gwariant a gweithgareddau sy'n ymwneud ag arloesedd. At ddiben Arolwg Arloesedd y DU ac yn unol ag Arolwg Arloesedd Cymunedol Ewrop gyfan, dywedir bod busnes sydd wedi ymgysylltu ag unrhyw weithgareddau a ddisgrifiwyd ym mhwyntiau 1 i 3 uchod yn cyflawni 'arloesedd gweithredol'.</p> <p>At ddiben yr adroddiad hwn, dywedir bod busnes sydd wedi ymgysylltu ag unrhyw weithgareddau a ddisgrifiwyd ym mhwyntiau 1 i 4 uchod yn 'arloeswr mwy bras'. Hefyd, y busnesau a elwir yn 'arloeswr ar raddfa ehangach' yw'r rhai hynny sydd wedi ymgysylltu â'r gweithgaredd a ddisgrifiwyd ym mhwynt 3 uchod.</p>

1

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/536491/UKIS\\_2015\\_Main\\_\\_report\\_Final\\_v.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/536491/UKIS_2015_Main__report_Final_v.pdf)

Terminoleg	Diffiniad
Adnoddau Naturiol	<p>Ceir diffiniad yn adran 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016; mae hyn yn cynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• anifeiliaid, planhigion ac organebau eraill;</li> <li>• aer, dŵr a phridd;</li> <li>• mwynau;</li> <li>• nodweddion a phrosesau daearegol;</li> <li>• nodweddion ffisiograffigol;</li> <li>• nodweddion a phrosesau hinsawdd.</li> </ul>
Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol	<p>Fel y'i diffinnir yn adran 3 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2017:</p> <p>(1) Yn y Rhan hon, ystyr "rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol" yw—</p> <p style="padding-left: 40px;">(a) defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar raddfa sy'n hyrwyddo cyflawniad yr amcan yn isadran (2),</p> <p style="padding-left: 40px;">(b) cymryd camau eraill sy'n hyrwyddo cyflawniad yr amcan hwnnw, a</p> <p style="padding-left: 40px;">(c) pheidio â chymryd camau sy'n llesteirio cyflawniad yr amcan hwnnw.</p> <p>(2) Yr amcan yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r buddion y maent yn eu darparu ac, wrth wneud hynny—</p> <p style="padding-left: 40px;">(a) diwallu anghenion y cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy, a</p> <p style="padding-left: 40px;">(b) chyfrannu at gyflawniad y nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2).</p>



# 1 Cefndir i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Diben Adroddiad Cwmpasu hwn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

## 1.1 Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar hyn o bryd i ddarparu cyd-destun gofodol ar gyfer y ddarpariaeth o bolisi datblygu a chynllunio cenedlaethol yng Nghymru dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn rhan bwysig o'r system gynllunio yng Nghymru. Mae rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r system gynllunio ar gael ar [wefan](#) Llywodraeth Cymru. Bydd y Fframwaith yn dylanwadu ar sut y mae cymunedau'n datblygu dros yr 20 mlynedd nesaf ac mae'n bwysig bod gennym ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r effeithiau cadarnhaol ac andwyol y gall hyn eu cael wrth i ni ddatblygu'r Fframwaith. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn datblygu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Bydd y dull integredig hwn o arfarnu yn sicrhau ein bod yn ystyried y cyfraniad y gall y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ei wneud at saith nod llesiant cenedlaethol Cymru, ac yn ymsefydlu egwyddor datblygu cynaliadwy ar bob cam, y darperir ar ei gyfer gan *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)*.

Mae'r asesiad hwn yn ofyniad mewn sawl darn o ddeddfwriaeth gan gynnwys Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd (y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol)<sup>2</sup> a droswyd yn uniongyrchol i gyfraith Cymru drwy'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol<sup>3</sup>. Mae Adran 3 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn diwygio Rhan 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ac yn mewnosod Adrannau 60B (1) (b) s 60,60A, 60B a 60C newydd. Mae Adran 60B (1) (b) yn gofyn yn benodol i Lywodraeth Cymru gynnal arfarniad o gynaliadwyedd y polisiâu yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac mae'n rhaid i hwn ymgorffori gofynion y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol ac ystyriaethau o effeithiau ar y Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu integreiddio asesiadau eraill gan gynnwys iechyd, y Gymraeg ac asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ym mhroses yr Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol a bydd yn cynnal Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig felly.

## 1.2 Beth yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol?

Cynllun defnydd tir cenedlaethol fydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a bydd yn rhan bwysig o'r system cynllunio defnydd tir yng Nghymru. Bydd yn pennu gweledigaeth ofodol ar gyfer y system gynllunio gyfan, gan gynnwys materion fel ynni, trafndiaeth a seilwaith a bydd yn hysbysu penderfyniadau a wneir yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Bydd yn darparu'r cyd-destun ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol (rhanbarthol) a Chynlluniau Datblygu Lleol (lleol) ac yn cynorthwyo'r gwaith o benderfynu ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Bydd yn fframwaith lefel uchel, sy'n bodoli ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru a bydd yn canolbwyntio ar gynorthwyo darpariaeth amcanion ar lefel genedlaethol a pholisi'r Llywodraeth. Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cael ei adolygu bob 5 mlynedd.

Pan fydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn nodi bod angen seilwaith newydd o bwysigrwydd cenedlaethol, bydd y system gynllunio yn chwarae rhan bwysig o ran helpu i gefnogi darpariaeth y seilwaith hwn. Yn bwysig, mae'r system gynllunio yn sicrhau bod seilwaith yn cael ei ddarparu mewn ffordd integredig ac y sicrhau bod cymaint o gyfleoedd â phosibl ar gyfer manteision. Mae prosiectau ar raddfa genedlaethol yn debygol o fod yn arwyddocaol, naill ai o ran maint neu eu cyfraniad at fodloni nodau cenedlaethol a bydd eu cynnwys yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd ac yn helpu i gydgyssylltu buddsoddiad cyhoeddus a phreifat.

<sup>2</sup> Cyfarwyddeb 2001/42/EC Senedd Ewrop a Chyngor 27 Mehefin 2001 ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd

<sup>3</sup> Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (OS 2004/1656 (W/170)) ac yn Lloegr, yr *Environmental Assessment of Plans and Programmes Regulations 2004* (OS 2004/1633)

### 1.3 Beth yw Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig?

#### 1.3.1 Arfarniad Cynaliadwyedd / Aseiad Amgylcheddol Strategol

Rydym wedi ymrwmo i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru nawr ac yn yr hirdymor. Un o'r ffyrdd allweddol o wneud hyn yw mabwysiadu dull integredig o wneud yr hyn yr ydym yn ei wneud. Mae'r dull integredig hwn yn ein galluogi i gymryd golwg gyfannol ar effeithiau posibl y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a byddwn yn rhannu gwybodaeth a chysylltiadau rhwng gwahanol bynciau trwy ddull cydweithredol.


Proses ar gyfer asesu effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cynllun yw Arfarniad Cynaliadwyedd, a'i nod yw sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn ganolog i'r broses o lunio cynlluniau. Gellir ei ddefnyddio hefyd i nodi effeithiau diwylliannol sy'n ei alluogi i fod yn gyson â phedair cydran datblygu cynaliadwy yng nghyfraith Cymru. Mae Aseiad Amgylcheddol Strategol wedi ei ymgorffori yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac mae'n broses systemig ar gyfer arfarnu goblygiadau amgylcheddol cynlluniau a rhaglenni i sicrhau bod materion amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio a'u hasesu mor gynnar â phosibl yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae Erthygl 1 y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yn nodi mai'r nod yw:

*'provide for a high level of protection of the environment and to contribute to the integration of environmental considerations into the preparation and adoption of plans and programmes with a view to promoting sustainable development'.*

Mae canllawiau a luniwyd gan Lywodraeth y DU<sup>4</sup> (gweler hefyd Adran 2 yr Adroddiad hwn) yn cyflwyno cyfres o gamau rhagnodedig ar gyfer yr Aseiad Amgylcheddol Strategol. Caiff yr un camau hyn eu mabwysiadu ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig hwn, er bod ei gwmpas yn ehangach na materion amgylcheddol. Serch hynny, mae'n rhaid cyd-fynd ag egwyddorion a gofynion cyfreithiol y Rheoliadau Aseidiadau Amgylcheddol Strategol. Mae'r Adroddiad Cwmpasu hwn yn nodi ac yn esbonio gofynion penodol y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol y mae angen eu bodloni.

Mae Ffigur 1-1 yn dangos prif gamau'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig fel y mae'n cyd-fynd â'r broses o ddatblygu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Ceir esboniad mwy manwl yn Adran 2 yr Adroddiad Cwmpasu hwn:

Ffigur 1-1 Amlinelliad o Broses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol



<sup>4</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/strategic-environmental-assessment-directive-guidance>

### 1.3.2 Pam ydym ni'n integreiddio asesiadau eraill?

Un o'r ffyrdd allweddol o weithio sy'n rhan o'r egwyddor datblygu cynaliadwy yw'r angen i fabwysiadu dull integredig o wneud yr hyn yr ydym yn ei wneud. O ystyried natur a chwmpas y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, rydym wedi ceisio integreiddio ein dull ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol ag asesiadau statudol ac anstatudol eraill. Mae hyn yn ein galluogi i gymryd golwg fwy cyflawn ar y goblygiadau cynaliadwyedd a chyfleoedd sy'n deillio o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Gan fod hwn yn Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, mae'r asesiadau effaith ychwanegol canlynol wedi cael eu cynnwys ym mhroses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig:

- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
- Y Gymraeg;
- Prawfesur Polisiâu Gwledig;
- Hawliau Plant;
- Newid yn yr Hinsawdd;
- Datblygu Economaidd; ac
- Asesu'r Effaith ar Iechyd.

Mae rhai o'r rhain yn asesiadau effaith statudol ac mae Llywodraeth Cymru yn gwneud rhai yn ofynnol, fel y disgrifir ymhellach yn Adran 2 yr Adroddiad hwn.

Mae integreiddio'r asesiadau eraill hyn yn sicrhau bod dull cydweithredol yn cael ei fabwysiadu ar wahanol faterion, gan rannu gwybodaeth a chydabod cysylltiadau rhwng pynciau mewn ffordd gyson a thryloyw. Mae hyn yn cynnig mecanwaith cadarn a thrylwyr i nodi problemau a chyfleoedd, asesu effeithiau gan gynnwys effeithiau cyfunol ac anuniongyrchol a gwneud gwaith monitro mewn ffordd gyfannol.

### 1.3.3 Beth yw cam Adroddiad Cwmpasu proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig?

Yr Adroddiad Cwmpasu hwn yw cam cychwynnol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac mae'n pennu'r cwmpas ar gyfer gweddill y broses. Mae'n ddull integredig sydd wedi'i lunio drwy gynnwys ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ac mae'n dilyn y fethodoleg a nodir yn y canllawiau cyhoeddus<sup>5</sup> a'i nod yw:

- Pennu cwmpas a lefel fanylder yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig;
- Nodi cynlluniau, polisiâu a mentrau perthnasol a fydd yn hysbysu proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol;
- Nodi gwybodaeth berthnasol am amodau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol yng Nghymru ar raddfa genedlaethol;
- Nodi materion a chyfleoedd cynaliadwyedd allweddol; a
- Cyflwyno fframwaith ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, y gellir arfarnu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn eri erbyn.

---

<sup>5</sup> ODPM (2005) *A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive Practical guidance on applying European Directive 2001/42/EC "on the assessment of the effects of certain plans and programmes on the environment"*

## 1.4 Sut mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn berthnasol i'w gilydd?

Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yw cynllun datblygu gofodol 20 mlynedd cenedlaethol Llywodraeth Cymru (1.2). Yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yw'r broses a ddilynir i ddatblygu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Mae'n sicrhau bod datblygiad cynaliadwy wrth wraidd y broses ac mae'n integreiddio ystod o asesiadau mewn offeryn asesu cynhwysfawr syml (1.3).

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2015, yn ceisio rhoi Cymru ar lwybr cynaliadwy tuag at wella ein llesiant. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus gyflawni datblygu cynaliadwy a ddiffinir fel:-

**“Datblygu cynaliadwy” yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.**

Mae Adran 2 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn nodi'r diffiniad o ddatblygu cynaliadwy ar gyfer y system gynllunio ac yn cyfeirio'n uniongyrchol at y diffiniad yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### 1.4.1 Datblygu Cynaliadwy

Yn hytrach na bod yn ganlyniad, mae datblygu cynaliadwy yn ffordd o wneud pethau ac mae'r Ddeddf yn llywio sut y dylai cyrrff cyhoeddus weithredu er mwyn cyflawni hynny. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer diben a rennir drwy saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Nid oes modd rhannu'r nodau llesiant hyn o'i gilydd ac maent yn esbonio yr hyn a olygir gan lesiant Cymru.


Datblygu cynaliadwy yw'r broses o wella llesiant. Mae'n cydnabod bod llawer o bethau sy'n pennu ansawdd bywyd (llesiant) pobl, ac y gall y rhain gael eu categorio'n fras yn ffactorau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r rhain wedi eu cyfleu yn y nodau llesiant. Golyga hyn fod gwella ansawdd ein hamgylchedd, ein heconomi, ein cymdeithas a'n diwylliant yn gallu gwella llesiant unigolion a llesiant Cymru gyfan.

Tabl 1-1 Diffiniad o Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Nod	Disgrifiad o'r nod
Cymru lewyrchus.	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
Cymru gydnerth.	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Cymru iachach.	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal.	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
Cymru o gymunedau cydlynus.	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

### 1.4.2 Pwysigrwydd Integreiddio'r Saith Nod Llesiant yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Bydd gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol swyddogaeth bwysig o ran cyfrannu at gyflawni nodau llesiant dros y cyfnod o 20 mlynedd, a bydd y dull o arfarnu yn ein helpu i ddeall lle gall y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sicrhau bod y cyfraniad hwnnw mor fawr â phosibl. Mae'r nodau llesiant wedi bod yn hanfodol ar gyfer paratoi'r Adroddiad Cwmpasu hwn a Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (Adran 5.2). Defnyddiwyd y nodau llesiant hyn hefyd i lywio'r gwaith o adolygu'r dystiolaeth, nodi problemau, a strwythuro'r Fframwaith asesu.

Cam cyntaf datblygu Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yw datblygu amcanion arfarnu y gellir eu defnyddio i asesu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Defnyddiwyd y gyfres gychwynnol o amcanion llesiant a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2016 fel man cychwyn; fe'u hadolygwyd ochr yn ochr â'r materion cynaliadwyedd allweddol a'r dystiolaeth, a gwnaethant lywio datblygiad 17 Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Er bod agweddau tebyg rhwng yr amcanion llesiant a'r amcanion arfarnu ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, maent yn wahanol gan eu bod at wahanol ddibenion.

Ochr yn ochr â'r saith nod llesiant, sefydlwyd Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Cymru yn 2016 i fesur, ar lefel genedlaethol, pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at y nodau llesiant hyn. Bydd y rhain oll yn cael eu casglu ar y lefel genedlaethol. Sefydlwyd y dangosyddion hyn i fesur newidiadau ar lefel Cymru, ac ni fwriedir iddynt fesur perfformiad corff cyhoeddus penodol, polisi/strategaeth neu wasanaeth cyhoeddus penodol (e.e. cynllunio).

Bwriedir i'r saith nod llesiant fod yn genedliadol. Mae amcanion llesiant cychwynnol y Llywodraeth ar gyfer y cyfnod 2016-2021 ond yn adlewyrchu dyheadau'r Llywodraeth ar gyfer newid dros yr hirdymor. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwmo i adolygu'r rhain a bydd angen ystyried hyn wrth i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ddatblygu.







### 1.4.3 Dulliau o Weithio

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a ddiffinir gan y Ddeddf yn rhan hanfodol o sut y mae'n ofynnol i gyrrff cyhoeddus – gan gynnwys Llywodraeth Cymru – weithredu bellach. Mae'n rhaid i ni weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, drwy roi ystyriaeth i egwyddor datblygu cynaliadwy.

Mae'r egwyddor yn cynnwys pum dull o weithio y mae'n ofynnol i gyrrff cyhoeddus eu cadw mewn cof wrth roi datblygu cynaliadwy ar waith, sef:

- Ystyried yr **hirdymor** fel nad ydym yn effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- Defnyddio dull **integredig** fel bod cyrff cyhoeddus yn ystyried y nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant;
- **Cynnwys** amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- Gweithio gydag eraill mewn modd **cydweithredol** i ganfod atebion cynaliadwy;
- Deall yr hyn sydd wrth wraidd problemau er mwyn eu **hatal** rhag digwydd.

2 Ffigur 1-2 Nodau Llesiant a 5 Dull o Weithio

Nodau Llesiant	Dulliau o Weithio	
		<b>Hirdymor</b>
		<b>Integreiddio</b>
		<b>Cydweithio</b>
		<b>Cynnwys</b>
		<b>Atal</b>

### 1.4.4 Dulliau o Weithio a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol



Mae'r dulliau o weithio wedi bod yn rhan annatod o ddatblygu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac felly, drwy gysylltiad, yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Yn ystod y gwaith yr ydym wedi ei wneud hyd yn hyn a'r gwaith sydd o'n blaenau, rydym ni wedi bod yn ystyried sut y mae'r dulliau o weithio yn llywio yr hyn yr ydym yn ei wneud a sut y gallant ein helpu i gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae'r tabl canlynol yn nodi trosolwg o'n dull.

<b>Ystyried yr hirdymor</b>
<p><b><i>Datblygu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol</i></b></p> <p>I sicrhau ein bod yn ystyried yr hirdymor, caiff y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ei ddatblygu i ddarparu fframwaith 20 mlynedd ar gyfer system cynllunio'r defnydd o dir o 2020 i 2040. Yn bwysig, bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol hefyd yn cefnogi ystyriaethau y tu hwnt i 2040 pan fo hynny'n bosibl, trwy ddefnyddio tystiolaeth a thueddiadau a cheisio deall canlyniadau dros yr amserlenni hiraf sydd ar gael. Er bod polisïau tymor byrrach o ddiddordeb i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac y gallent lywio ei dull mewn rhai meysydd, yn y pen draw mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn ymwneud â chynllunio gofodol strategol hirdymor ac mae'n cefnogi dull nad yw wedi ei gyfyngu gan anghenion tymor byr yn unig. Bydd y polisïau a'r prosiectau y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn eu cynnwys yn darparu cyd-destun ar gyfer y defnydd o dir yng Nghymru am 20 mlynedd.</p>
<p><b><i>Swyddogaeth yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig</i></b></p> <p>Swyddogaeth yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yw cefnogi prosesau gwneud polisïau hirdymor yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Mae'n nodi ac yn ystyried amrywiaeth eang o dystiolaeth gymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd. Mae prosesau adolygu cynlluniau a rhaglenni sylfaenol a nodi problemau a chyfleoedd yn defnyddio tystiolaeth gref sy'n ystyried y tymor byr, canolig a hir. Bydd y fframwaith profi yn profi polisïau datblygol ac yn asesu eu gallu i gyflawni ein nodau hirdymor. Bydd yr opsiynau gofodol a gaiff eu datblygu a'u profi drwy'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn rhoi ystyriaeth benodol i gyflawni newid gofodol strategol hirdymor. Mae Atodiad B o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn nodi'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ystyried y tueddiadau tymor byr, canolig a hir. Mae adran pump er enghraifft yn dangos y tueddiadau hirdymor o ran amcanestyniadau poblogaeth. Mae hyn yn cyfrannu at nodi materion a chyfleoedd allweddol i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fynd i'r afael â nhw ac mae'n llunio Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer asesu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.</p>
<b>Defnyddio dull integredig</b>
<p><b><i>Datblygu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol</i></b></p> <p>Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn darparu strategaeth ofodol genedlaethol a fydd yn cwmpasu materion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ym maes defnydd tir. Bydd ei bolisïau yn integredig, yn elwa i'r eithaf ar y cyfraniad i'r nodau llesiant, ac yn cael ei ddatblygu drwy broses asesu fanwl ar sail tystiolaeth sy'n nodi'r cysylltiadau rhwng materion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ar bob cam. Yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig fydd yr offeryn y byddwn yn ei ddefnyddio i brofi'r integreiddio hwn ac yn sicrhau y ceir y cyfraniad eithaf i fodloni'r nodau llesiant.</p>
<p><b><i>Swyddogaeth yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig</i></b></p> <p>Yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yw'r dull integredig o ddatblygu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac asesu'r polisïau datblygol. Mae'n sicrhau y defnyddir dull cyfannol, gan rannu gwybodaeth a chydabod y cysylltiadau rhwng y gwahanol feysydd pwnc ac felly'r nodau. Mae proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn ymgorffori adolygiad o'r cynlluniau, rhaglenni ac amcanion amgylcheddol perthnasol ar raddfa genedlaethol i ryngwladol. Mae hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i fanteisio ar synergeddau posibl, nodi cyfleoedd ac ymdrin ag unrhyw anghysondebau a chyfyngiadau. Yn rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig mae asesiad cyfaddasrwydd o'r Fframwaith asesu wedi ei gynnal hefyd i sicrhau bod unrhyw wrthdaro yn cael ei amlygu, ei ddatrys neu ei reoli yn ôl yr angen.</p> <p>Roedd yr ymgynghoriad a'r gweithdy Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ategol â rhanddeiliaid allweddol yn sicrhau bod amrywiaeth o safbwyntiau wedi'u casglu ar Adroddiad Cwmpasu drafft yr</p>

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig gan gynnwys y Fframwaith drafft a'r dull integredig arfaethedig. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod synergeddau a gwrthdaro yn cael eu nodi ar gam cynnar, gan sicrhau dull cadarn o asesu.

Defnyddir dull traws-lywodraeth drwy sefydlu Gweithgor Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae hwn yn cynnwys arweinwyr polisi arbenigol sy'n cynnwys datgarboneiddio, trafndiaeth, cynllunio morol, adnoddau naturiol, cadwraeth natur, tueddiadau'r dyfodol ac ystadegau. Mae'r Gweithgor wedi ei sefydlu i gefnogi proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig drwy gydol datblygiad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

Mae Adran 2.2 o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn nodi'r dull integredig o asesu ac ymgysylltu a ddefnyddiwyd. Y bwriad yw y bydd y dull cydweithredol hwn yn parhau ac yn esblygu drwy gydol y broses er mwyn llenwi bylchau data, monitro, a chynyddu ymgysylltiad â grwpiau fel y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus.

### **Cynnwys pobl**

#### ***Datblygu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol***

Mae cynnwys pobl wrth ddatblygu'r Fframwaith yn rhan annatod o broses y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Yn ogystal â'r dyletswyddau sy'n codi o'r Ddeddf Llesiant, mae'r Ddeddf Cynllunio (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i sicrhau bod sefydlu'r camau i gynnwys aelodau o'r cyhoedd wrth baratoi'r Fframwaith yn un o'r camau cyntaf i'w cymryd. Mae'r Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd yn nodi gwahanol gamau'r broses a sut y gall pobl gymryd rhan.

Yn ogystal â'r pum cyfnod ymgynghori 12 wythnos yn ystod proses y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, bydd pwyslais ar ymgysylltu ar y cyfle cyntaf ar bob cam allweddol o'r broses. Hyd yn hyn mae digwyddiadau ymgysylltu wedi eu cynnal ledled Cymru ar ddechrau 2017 i gyfrannu at nodi materion ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol; yn ystod haf 2017 i gyfrannu at yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig datblygol; ac yn ystod hydref 2017 i gyfrannu at ddatblygiad Amcanion y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Opsiynau Gofodol datblygol. Bydd ymgysylltu yn parhau i fod yn nodwedd allweddol ynghyd â chyfnodau ymgynghori ffurfiol wrth i'r broses fynd yn ei blaen.

#### ***Swyddogaeth yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig***

Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn rhoi cyfle pwysig i bobl gymryd rhan mewn llywio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol wrth iddo fynd rhagddo. Mae'n broses sy'n adrodd hanes y cynllun ac yn cynorthwyo'r ddealltwriaeth o'i ddatblygiad. Er mwyn casglu ystod ehangach o safbwyntiau a sicrhau y cynhelir asesiad cynhwysfawr, gwahoddwyd amrywiaeth o randdeiliaid i gyfrannu at yr Adroddiad Cwmpasu drafft ac roedd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru i bawb ei weld. Cynhaliwyd gweithdy ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori, anfonwyd gwahoddiadau at randdeiliaid a oedd yn cynrychioli amrywiaeth eang o faterion yn cwmpasu gwahanol elfennau o'r asesiadau effaith integredig gan gynnwys meysydd fel y Gymraeg, iechyd a nodweddion gwarchoddedig. Mae'r gweithdy a'r sylwadau a nodwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi helpu i lunio'r Adroddiad Cwmpasu terfynol, gan sicrhau bod fframwaith cadarn wedi'i lunio ar gyfer asesu.

Bydd camau o'r gwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn y dyfodol yn parhau i gynnwys gwahanol sefydliadau ac unigolion i sicrhau bod amrywiaeth eang o safbwyntiau yn parhau i gael eu casglu a'u bod yn cyfrannu at ddatblygiad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

### **Cydweithio ag eraill**

#### ***Datblygu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol***

Ni fydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar ei ben ei hun yn gallu mynd i'r afael â'r materion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol allweddol sy'n wynebu Cymru. Ei swyddogaeth yw nodi'r hyn y gall ei wneud yn uniongyrchol a thrwy gydweithio ag eraill. Mae cyfle i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol hwyluso camau gan eraill; datblygu dulliau cyfaddas; a nodi prosiectau y gellir eu cyflawni ar y cyd â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill. Trwy elwa i'r eithaf ar y cyfleoedd i gefnogi cyflawniad amcanion cyffredin, bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn gallu sicrhau cymaint o ganlyniadau cadarnhaol â phosibl a helpu i gyflawni'r amcanion llesiant.



<p>Yn bwysig, mae gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ddiddordeb mewn cefnogi darpariaeth ar bob lefel drwy'r system gynllunio. Yn ogystal â phrosiectau o bwys a phrosiectau untro, bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn hwyluso darpariaeth sawl prosiect llai, sy'n gallu helpu i gyflawni newid ar y cyd yn yr hirdymor.</p> <p>Mae gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ddiddordeb mewn gweithio gyda phawb. Bydd yn chwarae rhan mewn cydgysylltu darpariaeth buddsoddiad a strategaethau ar draws y Llywodraeth; bydd yn gweithio gyda gwneuthurwyr cynlluniau rhanbarthol a lleol; busnesau; rhanddeiliaid; ac amrywiaeth eang o fuddiannau. Mae'r cyflwyniadau i Lywodraeth Cymru yn ystod yr Alwad am Dystiolaeth a Phrosiectau a ddechreuwyd ym mis Rhagfyr 2016, a gaiff eu hasesu ar gyfer eu cynnwys o bosibl yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, yn dangos pa mor eang ac amrywiol yw'r materion y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn eu hystyried.</p>
<p><b>Swyddogaeth yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig</b></p> <p>Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, drwy adolygu cynlluniau, rhaglenni ac amcanion amgylcheddol (Atodiad A), dystiolaeth sylfaenol (Atodiad B) a dangosyddion Llesiant Cenedlaethol, wedi helpu i nodi'r materion cynaliadwyedd allweddol ac mae'n nodi'r cyfleoedd ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (Tabl 4-1); yn dilyn cyfnod ymgysylltu ac ymgynghori, mae'r dystiolaeth, cynlluniau a rhaglenni ac ati wedi eu diweddarau a'u diwygio. Gwnaeth hyn gyfrannu at Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, a bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i brofi polisïau a chynigion y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a bydd yn helpu i elwa i'r eithaf ar gyfleoedd i gydweithio ac yn sicrhau bod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol mor gynaliadwy â phosibl.</p>
<p style="text-align: center;"><b>Atal</b></p>
<p><b>Datblygu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol</b></p> <p>Y system gynllunio yw un o ysgogiadau allweddol y Llywodraeth wrth nodi problemau yn y dyfodol a chymryd camau i fynd i'r afael â nhw, fel nad ydynt yn gwaethygu a/neu nad ydynt yn digwydd. Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn nodi materion ar lefel genedlaethol ac yn cyfochri'r system gynllunio – yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol – i fynd i'r afael â nhw drwy bolisïau a phrosiectau cenedlaethol. Cryfder y system gynllunio a chynllun datblygu gofodol cenedlaethol yw y gall ymyrryd dros yr hirdymor i gydgyssylltu canlyniadau llawer o benderfyniadau sy'n ymwneud â'r defnydd o dir er mwyn helpu i gyflawni newid mawr ac atal canlyniadau negyddol. Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol wedi'i seilio ar dystiolaeth. Bydd yn destun rhaglen fonitro ac adolygu, i sefydlu ei gynnydd tuag at gyflawni ei amcanion a chaniatáu am gamau ymyrryd os oes angen.</p>
<p><b>Swyddogaeth yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig</b></p> <p>Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi'i seilio ar dystiolaeth sy'n cyfrannu at yr Adroddiad Cwmpasu ac yn llywio Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Nododd yr adolygiad o'r dystiolaeth hon faterion allweddol i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fynd i'r afael â nhw a chyfleoedd i sicrhau bod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn atal canlyniadau negyddol ac yn gwella canlyniadau cadarnhaol pan fo hynny'n bosibl (Tabl 4-1). Bydd nodi'r materion a'r tueddiadau hyn ar y cam cynnar hwn yn helpu i ddatblygu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drwy lunio amcanion a chwestiynau Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn sicrhau y caiff y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ei fonitro i sicrhau bod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cael ei weithredu'n llwyddiannus ac yn cyflawni ei amcanion. Bydd unrhyw faterion a amlygir yn cyfrannu at yr adolygiad o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.</p>

## 1.5 Sut mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn berthnasol i strategaethau eraill Llywodraeth Cymru?

Yn ogystal â chynorthwyo darpariaeth y nodau llesiant, bydd gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ran bwysig i'w chwarae o ran darparu polisi allweddol y Llywodraeth, gan gynnwys amrywiaeth eang o bolisïau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys 'Symud Cymru Ymlaen' a 'Ffyniant i bawb: y strategaeth i Gymru'.

Mae Symud Cymru Ymlaen yn gynllun pum mlynedd i ddarparu mwy o swyddi a swyddi gwell trwy economi gryfach a thecach, i wella a diwygio gwasanaethau cyhoeddus, ac i adeiladu Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy. Mae Symud Cymru Ymlaen yn nodi sut y bydd y sefydliad yn gweithio'n wahanol ar draws ffiniau traddodiadol i gyflawni blaenoriaethau. Mae Ffyniant i bawb: y strategaeth i Gymru yn cymryd yr ymrwymiadau yn Symud Cymru Ymlaen ac yn eu rhoi mewn cyd-destun hirdymor, ac yn nodi sut y cânt eu cyflawni drwy uno ymdrechion sector cyhoeddus cyfan Cymru. Mae'r pedair thema allweddol yn y strategaeth yn adlewyrchu'r rhai hynny yn Symud Cymru Ymlaen, sef:

- Ffyniannus a Diogel;
- Iach ac Egnïol;
- Uchelgais a Dysgu
- Unedig a Chysylltiedig


Mae'r strategaeth hefyd yn cydnabod meysydd a ddaeth i'r amlwg am fod â'r cyfraniad posibl mwyaf i ffyniant a llesiant hirdymor. Mae'n rhoi pwyslais penodol ar y pum maes blaenoriaeth hyn y credir y gellid cael yr effaith gychwynnol fwyaf drwy wella'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu, gan baratoi'r ffordd ar gyfer camau eraill yn y tymor hwy. Y pum maes blaenoriaeth yw:

- Y Blynyddoedd Cynnar
- Tai
- Gofal Cymdeithasol
- Iechyd Meddwl
- Sgiliau a Chyflogadwyedd

Mae'r strategaeth yn cynrychioli ffordd newydd o weithio, un sy'n cydnabod yr heriau yr ydym yn eu hwynebu heddiw, y Gymru yr ydym yn ei dymuno ar gyfer y dyfodol a'r camau y mae angen eu cymryd i wireddu hyn.

Caiff dogfennau allweddol eraill a adolygwyd eu crynhoi yn Atodiad A ac Adran 3 yr adroddiad hwn. Mae Ffigur 1-3 yn dangos sut y mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn rhyngwynebu ag elfennau eraill o bolisi a deddfwriaeth genedlaethol.

Ffigur 1-3 Rhyng-gysylltiadau allweddol rhwng y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a darnau allweddol eraill o bolisi a deddfwriaeth genedlaethol



Mae rhagor o wybodaeth am y broses a'r amserlen ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:  
<http://gov.wales/topics/planning/national-development-framework-for-wales/?skip=1&lang=cy>

## 1.6 A fydd Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei gynnal?

Mae Cyfarwyddeb 92/43/EEC y Cyngor Ewropeaidd ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid Gwyllt (y 'Cyfarwyddeb Cynefinoedd') yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gynllun neu raglen sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle Natura 2000 (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), ymgeiswyr Ardal Cadwraeth Arbennig (yACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), darpar Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (dAGA) a safleoedd Ramsar), nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli'r safle at

ddibenion cadwraeth natur, fod yn destun Asesiad Priodol. Troswyd y Gyfarwyddeb i gyfraith Cymru drwy'r Rheoliadau Cynefinoedd<sup>6</sup>. Cyfeirir at y broses gyffredin fel yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Bydd ystyriaeth o debygolrwydd effeithiau arwyddocaol (a adnabyddir hefyd fel sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd) yn cael ei gwneud i benderfynu a fyddai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (naill ai ar ei ben ei hun a/neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill) yn achosi effaith andwyol ar gyfanrwydd safle Natura 2000, o ran ei amcanion cadwraeth a'i fuddiannau cymwys. Bydd canlyniadau Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ac unrhyw asesiadau dilynol, yn cael eu hadlewyrchu a'u hintegreiddio, yn ôl yr angen, i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, yn rhan o broses ailadroddol. Cyflwynir y dynodiadau sy'n berthnasol i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn Ffigur 1 (Atodiad B) Safleoedd Cadwraeth Natur Dynodedig.

## 1.7 Disodli Cynllun Gofodol Cymru

Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn disodli Cynllun Gofodol Cymru. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig hwn yn asesu opsiynau amgen rhesymol ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol datblygol, a fydd yn cynnwys opsiynau amrywiol gan gynnwys dewis 'gwneud dim/ busnes fel arfer' – sef cadw Cynllun Gofodol Cymru. Bydd hyn yn asesu goblygiadau ac effeithiau disodli Cynllun Gofodol Cymru â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gan fod y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yn ei gwneud yn ofynnol i agweddau perthnasol ar gyflwr presennol yr amgylchedd ac esblygiad tebygol heb y cynllun gael eu hystyried, ynghyd â nodweddion amgylcheddol ardaloedd sy'n debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol.

## 1.8 Pa waith ymgynghori a wnaed ar yr Adroddiad Cwmpasu?

Adroddiad Cwmpasu drafft yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol oedd un o'r camau ymgysylltu a chydweithredu cyntaf ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar yr Adroddiad Cwmpasu drafft rhwng 28 Ebrill a 21 Gorffennaf 2017. Cynhaliwyd gweithdy hefyd ddechrau mis Mai 2017 â rhanddeiliaid sy'n cynrychioli'r amrywiaeth o brosesau asesu sydd i gael eu hintegreiddio yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

Mae'r ymatebion i'r sylwadau a dderbyniwyd, a sut y maent wedi dylanwadu ar yr adolygiadau i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, wedi eu nodi yn yr adroddiad ymgynghori sydd ar gael [yma](#).

---

<sup>6</sup> Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (OS 2010/490)

## 2 Proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd

### 2.1 Camau ym Mhroses yr Arfarniad Cynaliadwyedd

Mae'r Canllaw Ymarferol ar y Gyfarwydddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yn isddosbarthu proses yr Aseiad Amgylcheddol Strategol yn gyfres o gamau. Caiff y camau hyn eu hadlewyrchu yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig hwn a darperir gwybodaeth ychwanegol i sicrhau bod pob un o'r aseidiadau integredig yn cael ei ymgorffori. Y bwriad yw bod y broses hon yn ailadroddol. Mae Ffigur 2-1 yn cyflwyno camau allweddol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, ochr yn ochr â chamau datblygu allweddol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a pha aseidiadau fydd yn cael eu hintegreiddio yn rhan o broses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. I grynhoi, bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn dilyn y broses ganlynol:

#### **Cam A: Pennu'r Cyd-destun a'r Amcanion, Nodi'r Llinell Sylfaen a Phenderfynu ar y Cwmpas (y Cam Hwn)**

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig crynodeb o gam Cwmpasu proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae'r cam hwn yn darparu'r sail ar gyfer cyflawni camau dilynol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae'r adolygiad o gynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill a datblygiad amcanion amgylcheddol, gan gynnwys polisïau a chynlluniau cenedlaethol a haen uwch eraill, yn sefydlu'r cyd-destun ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Er mwyn darogan yn gywir sut y gallai cynigion y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol effeithio ar ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd, mae'n bwysig deall yn gyntaf sefyllfa bresennol y ffactorau hyn ac yna archwilio eu hesblygiad tebygol heb weithredu'r Cynllun. Dadansoddir y llinell sylfaen hon wedyn, i nodi'r materion cynaliadwyedd allweddol a fydd yn hysbysu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd a'r cyfleoedd y gallai'r Fframwaith eu dylanwadu. Yn dilyn ymlaen o hyn, bydd Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cael ei sefydlu, i benderfynu ar gyfres o amcanion a chwestiynau allweddol, i'w defnyddio i asesu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd a sut y gallai wella'r ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd hyn, yng nghyd-destun y nodau llesiant.

Mae'r broses ymgynghori yn helpu i fireinio'r gwaith hwn fel bod gennym Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig sy'n effeithiol ar gyfer arfarnu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

#### **Camau B1 a B2: Datblygu a mireinio opsiynau eraill ac asesu effeithiau (y Cam Nesaf)**

Yn dilyn yr Ymgynghoriad Cwmpasu, bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn symud ymlaen i Gam B a fydd yn cynnwys arfarnu'r opsiynau amgen a'r opsiynau a ffefrir ar gyfer polisïau a chynigion y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn erbyn Fframwaith sefydledig yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Bydd asesu opsiynau'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn galluogi'r opsiynau mwy a lleiaf cynaliadwy i gael eu nodi yn erbyn yr amcanion a nodwyd. Gellir gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau neu opsiynau amgen, fel y bo'n briodol. Bydd hyn yn llywio'r opsiynau i fwrw ymlaen â nhw ac i ymgynghori arnynt yng nghan nesaf proses y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a nodi'r opsiwn a ffefrir.

Byddwn yn cyhoeddi yn ystod Cam B Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig Interim ar Faterion ac Opsiynau'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

#### **Camau B3, B4, B5 a B6: Darogan ac arfarnu effeithiau'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft, gan gynnwys opsiynau amgen**

Ar ôl datblygu'r opsiwn a ffefrir, cam hwn yr aseiad yw arfarnu'r effeithiau arwyddocaol a ragwelir. Mae'r arfarniad yn cynnwys gwneud dyfarniad ar ba un a fyddai'r effeithiau a ragwelir yn arwyddocaol yn amgylcheddol ai peidio. Mae Camau B5 a B6 yn rhan annatod o'r broses hon, ac yn cynnwys yr argymhellion ar gyfer gwelliant i ganlyniadau a monitro posibl o'r effeithiau arwyddocaol a ragwelir (gweler Cam D).

#### **Camau C a Ch: Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig Drafft ac Ymgynghoriad**


Bydd Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig Drafft yn cael ei gyhoeddi (Cam C) i gyd-fynd ag ymgynghoriad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft (Cam Ch).

Ar ôl yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft, bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cael ei ddiweddarau unwaith eto i adlewyrchu unrhyw newidiadau sylweddol i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol o ganlyniad i'r ymgynghoriad (parhad Cam Ch). Bydd Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig Terfynol yn cael ei lunio wedyn, i gyd-fynd â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Terfynol.

#### **Cam D: Monitro Effeithiau Sylweddol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol**

Mae Cam D proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cynnwys cwblhau fframwaith monitro a fydd yn cael ei ddefnyddio i nodi materion cadarnhaol a negyddol, ac effeithiau arwyddocaol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn y pen draw. Ar ôl mabwysiadu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, gellir paratoi Datganiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ôl-fabwysiadu, ochr yn ochr â Datganiad o Fanylion Amgylcheddol, yn cynnig manylion sut y mae proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi dylanwadu ar ddatblygiad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, yr effeithiau arwyddocaol a ragwelir, yn ogystal â'r fframwaith monitro.

Ffigur 2-1: Camau ym Mhroses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (addaswyd o ODPM 2005)





## 2.5 Dull integredig o asesu effaith

Mae Adran 1 yr adroddiad hwn yn nodi y bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn integreiddio cyfres o asesiadau effaith, yn ogystal ag Arfarniad Cynaliadwyedd, Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae manylion y dull o fynd i'r afael â'r asesiadau effaith wedi eu nodi yn adran 5.1.1; mae'r rhain yn cydnabod y penderfyniadau ehangach sy'n gorgyffwrdd rhwng y gwahanol asesiadau effaith ac yn galluogi safbwynt cyfannol i gael ei fabwysiadu.

Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn ein galluogi i fabwysiadu dull datblygu cynaliadwy gan hwyluso dull cyfannol o gynnal yr asesiad. Fel y diffinnir yn Adran 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac y cyfeirir ato yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015, diffinnir datblygu cynaliadwy fel:

*Blwch 1: Diffiniad o Ddatblygu Cynaliadwy, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

*ystyr "datblygu cynaliadwy" yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant*

Mae rhai o'r asesiadau effaith yn asesiadau effaith statudol ac mae Llywodraeth Cymru yn gwneud eraill yn ofynnol, fel y disgrifir isod:

### 2.5.1 Asesiadau Effaith Statudol

Mae'r asesiadau effaith canlynol yn ofyniad statudol.

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** – O dan y ddyletswydd gydraddoldeb (a nodir yn Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010), mae'n rhaid i lawer o awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, roi 'sylw dyledus' i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth yn ogystal ag i hybu cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt.

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg** – Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Safonau cysylltiedig yn ei gwneud yn ofynnol ystyried yr effeithiau canlynol:

- pa effaith, os o gwbl, fyddai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn ei chael ar y cyfleoedd i bobl eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu i drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg;
- sut allai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i unigolion eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu i drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg;
- sut ellid datblygu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fel nad yw'n cael unrhyw effeithiau andwyol y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar gyfleoedd i unigolion eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu i drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg, neu ei fod yn lleihau'r effeithiau hyn.

Mae Adrannau 60B (1) (b) a 60B (2) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gynnal arfarniad o gynaliadwyedd y polisiau yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol; mae'n rhaid i hyn gynnwys asesiad o'r effeithiau tebygol ar y defnydd o'r Gymraeg.

**Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant** - Y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru yw rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau. Mae'r asesiad o'r effaith ar hawliau'r plentyn yn ddull sy'n helpu i ddangos sut y mae Gweinidogion Cymru'n bodloni'r gofyniad cyfreithiol.

### 2.5.2 Asesiadau y mae Llywodraeth Cymru'n eu Gwneud yn Ofynnol

Mae Llywodraeth Cymru'n gwneud yr asesiadau effaith canlynol yn ofynnol i sicrhau bod polisiau a chynlluniau wedi cael eu hasesu ar gyfer eu heffaith a'u bod yn cael eu datblygu o'r camau cynharaf gyda'r nod o sicrhau cymaint o lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol â phosibl – nid nawr



yn unig, ond ar gyfer yr hirdymor. Byddant yn cymryd cydlyniad â mentrau eraill i ystyriaeth ac yn destun ymgysylltu â'r bobl a'r sefydliadau a fydd yn cael eu heffeithio fwyaf ganddynt.

- Iechyd;
- Prawfesur Polisiâu Gwledig;
- Newid yn yr Hinsawdd; a
- Datblygu Economaidd.

Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig hwn yn sicrhau bod dull cydweithredol ac integredig yn cael ei fabwysiadu ar gyfer gwahanol faterion, gan rannu gwybodaeth a chydabod cysylltiadau rhwng pynciau er mwyn osgoi ailadrodd gwaith. Mae'n cynnig dull cadarn a thrylwyr ar gyfer nodi problemau a chyfleoedd, asesu effeithiau a gwneud gwaith monitro mewn ffordd gyfannol.

Mae'r holl asesiadau effaith a nodir uchod wedi cael eu sgrinio i ddarganfod yr effaith bosibl y gallai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ei chael. Ar hyn o bryd, mae'r holl asesiadau effaith wedi cael eu sgrinio i mewn a'u hintegreiddio i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau yn Nhabl 2-1. Bydd y gwaith asesu hwn yn cael ei wneud yn rhan o broses ailadroddol a bydd yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu agweddau fel manylion y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg; tystiolaeth bellach neu wedi'i diweddarau; ac ymatebion ymgynghori.

Tabl 2-1 Crynodeb o Waith Sgrinio Asesiadau Effaith

Asesiad Effaith	Crynodeb o'r Canlyniadau Sgrinio
Iechyd	Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn arwain at effaith bosibl ar iechyd a llesiant. Bydd yr asesiad o iechyd wedi'i seilio ar y fethodoleg eang, gyfranogol a chynhwysol a argymhellir yng Nghymru ac a ddisgrifir yn 'Asesu'r Effaith ar Iechyd: Canllaw Ymarferol' (Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, 2012) a bydd yn defnyddio penderfynyddion ehangach iechyd gan gynnwys llesiant fel fframwaith ar gyfer trafodaeth. Mae Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (a fydd yn cael ei ddefnyddio i arfarnu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol) yn cynnwys amcanion iechyd a llesiant sy'n adlewyrchu dangosyddion Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Cydraddoldeb	Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cael effaith bosibl ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'r naw grŵp nodweddion gwarchoddedig a nodir yn Neddff Cydraddoldeb 2010 wedi cael eu sgrinio a sgriniwyd y grwpiau canlynol i mewn ar gyfer ystyriaeth bellach yn y broses asesu: hil, oedran, beichiogrwydd a mamolaeth, anabledd a rhyw. Bydd y nodweddion gwarchoddedig hyn yn cael eu hymgorffori yn yr amcanion a'r cwestiynau yn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. O ran y grwpiau nodweddion gwarchoddedig hynny a sgriniwyd allan (ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, crefydd a chred a chyfeiriadedd rhywiol) ystyriwyd ar y cam hwn na fyddent yn cael eu heffeithio gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Fodd bynnag, bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu trwy gydol y broses o lunio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Bydd y Fframwaith ISA a'r cwestiynau cynorthwyo penderfyniad cysylltiedig yn sicrhau yr ymdrinnir â dyletswyddau o fewn y Ddeddf Cydraddoldebau wrth i'r FfDC gael ei asesu. Bydd hyn yn cydnabod effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol gall y system gynllunio ei chael ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo a hybu cydraddoldeb cyfle, cysylltiadau da, cydlyniant cymunedol ehangach ac i geisio creu amodau sy'n eu cynorthwyo i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth drwy fentrau cynllunio defnydd tir.
Y Gymraeg	Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y gallai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol arwain at effaith bosibl ar y Gymraeg. Mae amcanion sy'n cwmpasu'r Gymraeg wedi eu hymgorffori yn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig felly. Bydd hyn yn sicrhau bod cyfleoedd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gyfrannu at lesiant y

Asesiad Effaith	Crynodeb o'r Canlyniadau Sgrinio
	Gymraeg yn y dyfodol yn cael eu hystyried a'u nodi pan fo hynny'n bosibl drwy'r gwaith hwn.
Prawfesur Polisiâu Gwledig	Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cael effaith bosibl ar gymunedau gwledig. Felly, mae amcanion sy'n cwmpasu agweddau ar fywyd gwledig fel mynediad at wasanaethau; signal band eang; a'r economi wedi cael eu hymgorffori yn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.
Hawliau Plant	Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cael effaith bosibl ar hawliau plant. Adolygwyd yr Erthyglau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a nodwyd yr erthyglau canlynol fel y rhai mwyaf perthnasol ar hyn o bryd – 6, 12, 23, 24, 27, 28, 31, a 36 <sup>7</sup> . O ran yr Erthyglau hyn a'r argymhellion a wnaed yn 2016 gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn ymgorffori amcanion sy'n trafod y meysydd hyn. Mae'r Datganiad ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn amlinellu manylion yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r dull ymgysylltu. Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y broses i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed wrth ddatblygu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.
Newid yn yr Hinsawdd	Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cael effaith bosibl ar newid yn yr hinsawdd. Mae amcanion sy'n cwmpasu newid yn yr hinsawdd wedi cael eu hymgorffori yn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig i sicrhau bod achosion a chanlyniadau newid yn yr hinsawdd yn cael eu hystyried a'u nodi pan yn bosibl drwy'r gwaith hwn.
Datblygu Economaidd	Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cael effaith bosibl ar yr economi. Mae amcanion economaidd wedi cael eu hymgorffori yn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig i sicrhau bod problemau a chyfleoedd yn cael eu hystyried a'u nodi pan yn bosibl drwy'r gwaith hwn.

Bydd yr effeithau ar y Trydydd Sector yn cael eu hasesu yn rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gydnabod a hybu'r Trydydd Sector. Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r Trydydd Sector am ei gyfraniad i lesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru, ei phobl a'i chymunedau.

Mae'r asesiadau effaith wedi eu hintegreiddio'n llawn yn y gwaith hwn. Mae Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi nodi amcanion a chwestiynau penodol i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer y gwahanol bynciau sy'n ymwneud ag effaith. Mae'n bwysig nodi bod natur trawsbynciol yr effeithiau hyn yn cael eu cydnabod ac y bydd natur yr asesiad yn sicrhau y bydd pynciau yn cael eu hystyried yn eu cyfanrwydd yn y pen draw ac nad oes angen ailadrodd pynciau ar draws themâu.

<sup>7</sup> <http://www.hawliauplant.cymru/>

## 3 Adolygiad o Gynlluniau, Rhaglenni ac Amcanion Amgylcheddol Perthnasol (A1)

### 3.1 Cyflwyniad

Gallai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gael ei ddylanwadu mewn gwahanol ffyrdd gan gynlluniau neu raglenni eraill, neu gan amcanion diogelu'r amgylchedd (neu gynaliadwyedd) allanol fel y rhai a gyflwynir mewn polisiâu neu ddeddfwriaeth. Gall deall y cysylltiadau hyn alluogi Llywodraeth Cymru i fanteisio ar synergeddau posibl, nodi cyfleoedd ac ymdrin ag unrhyw anghysondeb a chyfyngiadau. Adolygwyd nifer mawr o gynlluniau a rhaglenni eraill o ran materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol perthnasol sydd o bwysigrwydd i bob un o'r ffyrddiau asesu integredig.

Mae'n bwysig cofio bod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn ddogfen graddfa genedlaethol ac felly bydd y cynlluniau a'r rhaglenni eraill sy'n berthnasol yn ddogfennau graddfa genedlaethol, DU neu ryngwladol yn bennaf. Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, yn ei dro, yn ceisio dylanwadu ar gynllunio lefel is-genedlaethol yng Nghymru. Mae'r dogfennau cenedlaethol canlynol o bwysigrwydd penodol, a nod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fydd gweithio â nhw a rhannu nodau ac amcanion cyffredin:

- Symud Cymru Ymlaen 2016-2021;
- Ffyniant i bawb: y Strategaeth i Gymru
- Polisi Adnoddau Naturiol Cymru, yn cynnwys egwyddorion Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol
- Yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol<sup>8</sup>; a
- Chynllun Morol Cenedlaethol newydd Cymru<sup>9</sup>.

Bydd natur ailadroddol y gwaith hwn yn sicrhau y gellir rhoi ystyriaeth i gynlluniau, polisiâu a rhaglenni newydd a gyhoeddir wrth i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ddatblygu, ac y bydd hynny'n digwydd. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, Datganiadau Ardal y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu llunio.

Mae'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i gynlluniau a rhaglenni perthnasol gael eu hystyried. Mae'r blwch isod yn nodi gofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol ar gyfer cam hwn y broses.

*Blwch 2: Gofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol ar gyfer Adolygu Cynlluniau, Rhaglenni ac Amcanion Diogelu'r Amgylchedd*

*'...an outline of the contents, main objectives of the plan or programme and relationship with other relevant plans and programmes' (Atodiad 1 (a)).*

*'the environmental protection objectives, established at international, Community or Member State level, which are relevant to the plan or programme and the way those objectives and any environmental considerations have been taken into account during its preparation' (Atodiad 1 (e))*

Cynhaliwyd adolygiad o gynlluniau a rhaglenni eraill a allai effeithio ar y gwaith o baratoi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol er mwyn cyfrannu at ddatblygiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys:

- Nodi unrhyw amcanion cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol neu economaidd y dylid eu hadlewyrchu ym mhroses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.
- Nodi unrhyw ddata sylfaenol sy'n berthnasol i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.
- Nodi unrhyw ffactorau a allai ddylanwadu ar y gwaith o baratoi'r ddogfen, er enghraifft materion cynaliadwyedd.

<sup>8</sup> <http://www.naturalresources.wales/sonarr?lang=cy>

<sup>9</sup> <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/marine-planning/?lang=cy>

- Nodi unrhyw amcanion neu nodau a fyddai'n cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.
- Penderfynu pa un a oes gwrthdaro neu heriau posibl eglur rhwng cynlluniau, rhaglenni neu amcanion amgylcheddol eraill a nodwyd a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd.

Roedd yr adolygiad yn cynnwys dogfennau a baratowyd ar lefel ryngwladol, y DU gyfan a chenedlaethol. Ceir crynodeb fer o'r dogfennau a adolygwyd a'r prif ganfyddiadau yn Nhabl 3-1 ac Adran 3.2. Cyflwynir rhagor o fanylion yn Atodiad A.

Tabl 3-1 Crynodeb o'r mathau o ddogfennau a adolygwyd

Lefel	Crynodeb
Cynlluniau a Rhaglenni Rhyngwladol ac Ewropeaidd	Cynhaliwyd adolygiad o Gonfensiynau Rhyngwladol a Chyfarwyddebau Ewropeaidd allweddol a allai ddylanwadu ar ddatblygiad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Caiff Cyfarwyddebau Ewropeaidd ei drosi i ddeddfwriaeth genedlaethol ym mhob Aelod-wladwriaeth ac, felly, dylai fod effaith diferu i lawr o ran yr egwyddorion allweddol a'u cymhwyso i'r dogfennau cynllunio cenedlaethol perthnasol.
Cynlluniau a Rhaglenni'r DU Gyfan	Mae Llywodraeth EM yn sefydlu nifer o Ddeddfau a Rheoliadau ar gyfer amrywiaeth o wahanol bynciau gan gynnwys, er enghraifft, Deddf Ynni 2008 a Deddf Cydraddoldeb 2010. Cynhaliwyd adolygiad hefyd o gyhoeddiadau perthnasol gan sefydliadau yn cynnwys, er enghraifft, yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Mae'r cyhoeddiadau hyn yn amlinellu'r cynlluniau gweithredu a'r strategaethau ar draws amrywiaeth o feysydd pwnc, er enghraifft y Strategaeth Ansawdd Aer ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a Chynllun Gweithredu ar Effeithlonrwydd Ynni Cenedlaethol y DU. Mae angen cymryd amcanion y cynlluniau hyn, yn ogystal â rhai o'r heriau y maent yn eu codi, i ystyriaeth.
Cynlluniau a Rhaglenni Cymru	Cynhaliwyd adolygiad o gynlluniau a luniwyd ar lefel genedlaethol Cymru. Caiff llawer o'r rhain eu llunio gan Lywodraeth Cymru ac maent yn rhoi sylw penodol i faterion strategol fel yr economi; iechyd; diogelwch; cymunedau cynaliadwy; tai; cyflogaeth; a diogelu'r amgylchedd. Mae'r dogfennau yn cynnwys, er enghraifft, rhaglen Llywodraeth Cymru – <i>Symud Cymru Ymlaen 2016-2021</i> a Chynllun Morol Cenedlaethol newydd Cymru, sydd wrthi'n cael ei ddrafftio ac a fydd yn nodi sut y bydd datblygu cynaliadwy yn ardal forol Cymru yn cael ei gyflawni. <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) yn nodi saith nod llesiant i Gymru. Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hamcanion llesiant cychwynnol, a fwriadwyd i sicrhau bod ei chyfraniad at y saith nod llesiant mor fawr â phosibl. Mae cyrff cyhoeddus penodedig eraill wedi cyflwyno eu hamcanion llesiant hefyd er mwyn cyfrannu at y nodau llesiant.</li> <li>• Mae Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2016 Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â'r Polisi Adnoddau Naturiol (NRP) wedi cael eu cynnwys hefyd. Mae'r ddau yn canolbwyntio ar adnoddau naturiol Cymru, ac mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn cynnig asesiad o reolaeth gynaliadwy adnoddau naturiol a'r Polisi Adnoddau Naturiol yn ceisio cyflwyno'r blaenoriaethau cenedlaethol o ran y rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol yng Nghymru. Mae'r dogfennau hyn, yn benodol, yn ddogfennau cenedlaethol allweddol y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn manteisio arnynt. Maent yn cynnwys nodau cyffredin a rhennir amrywiaeth o dystiolaeth rhyngddynt. Dylai'r cynlluniau hyn gynnwys prif ddylanwadau cynlluniau rhyngwladol a lefel y DU drwy'r 'effaith diferu i lawr'. Dylent hefyd gynnig pwyslais strategol ar Gymru. Trwy nodi'r themâu hyn a'u cynnwys yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol y gall synergeddau gael eu cyflawni â dogfennau perthnasol eraill.</li> </ul>

### 3.2 Themâu Allweddol yn Deillio o'r Adolygiad

Nodwyd llawer o themâu cyffredin yn yr adolygiad o gynlluniau, rhaglenni ac amcanion diogelu'r amgylchedd. Er bod canlyniadau penodol wedi eu cyflwyno yn Atodiad A, mae Tabl 3-2 yn cynnig crynodeb o'r prif themâu a nodwyd. Ystyriwyd y themâu hyn yn unol â'r saith nod llesiant hefyd, a sut y gallent gyfrannu at gyflawni'r amcanion hynny.

Tabl 3-2 Themâu Allweddol yn Deillio o'r Adolygiad

Themâu Allweddol o'r Adolygiad	Nodau Llesiant Cenedlaethol (ble gallai'r themâu wneud cyfraniad)
Cynnal a gwella bioamrywiaeth, cynefinoedd a rhywogaethau ag ecosystemau cydnerth sy'n gweithredu'n iach, i greu Cymru fwy gydnerth a chynnal y gallu i addasu i newid yn yr hinsawdd	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Lleihau llygredd aer a sicrhau gwelliannau ansawdd aer gan gyfrannu at Gymru iachach	Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Lleihau'r perygl o lifogydd a/neu erydu arfordirol trwy weithredu cyfundrefnau rheoleiddio amgylcheddol, asesu datblygiadau yn unol â'r egwyddor ragofalus, a hybu'r gwaith o ddiogelu gorlifdiroedd neu ardaloedd o ail-alinio a reolir rhag datblygiad amhriodol	Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Gwella cysylltedd cymunedau sydd wedi eu cynllunio a'u dylunio yn well, a phatrymau symud cynaliadwy, gan gynyddu'r defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy, a lleihau'r ddibyniaeth ar y car preifat	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a mynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Diogelu a gwella ansawdd a nifer yr adnoddau dŵr	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Rheoli prosesau echdynnu mwynau a sicrhau bod cyn lleied o wastraff â phosibl yn cael ei gynhyrchu a chynyddu lefelau aildefnyddio ac ailgylchu i sicrhau rheolaeth fwy cynaliadwy o wastraff a lleihau tirlenwi	Cymru gydnerth Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Lleddfu pwysau ar adnoddau naturiol trwy gynyddu effeithlonrwydd ynni, ysgogi buddsoddiad ac arloesi a hybu'r defnydd	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach

Themâu Allweddol o'r Adolygiad	Nodau Llesiant Cenedlaethol (ble gallai'r themâu wneud cyfraniad)
cynaliadwy o adnoddau ynni adnewyddadwy cenedlaethol	Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Gwarchod adnoddau pridd, rheoli erydiad pridd a chynnal eu hansawdd	Cymru gydnerth Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Diogelu a gwella nodweddion unigryw ein tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol, asedau hanesyddol a'u lleoliadau	Cymru lewyrchus Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Gwella mynediad at dai fforddiadwy o ansawdd da i sicrhau bod gan bawb gyfle i fyw mewn cartref fforddiadwy boddhaol	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth a lleihau anghydraddoldeb iechyd i greu Cymru iachach	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Cyfrannu at lesiant y Gymraeg a diwylliant a threftadaeth Cymru yn y dyfodol	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Cynyddu cyrhaeddiad addysgol er mwyn helpu i wella cyfleoedd am oes	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Creu cymunedau diogel, cynaliadwy, cytbwys a chydlynus, mewn ardaloedd gwledig a threfol	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Hybu cyfleoedd cyflogaeth o safon a gweithgarwch economaidd	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Hybu twf economaidd cynaliadwy, amrywiaeth a chystadleurwydd busnes	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Themâu Allweddol o'r Adolygiad	Nodau Llesiant Cenedlaethol (ble gallai'r themâu wneud cyfraniad)
Sefydlu economi dwristiaeth gref, gan fanteisio'n sensitif ar asedau amgylcheddol, treftadaeth, a hamdden	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu



## 4 Gwybodaeth Sylfaenol a Nodi Materion a Chyfleoedd Cynaliadwyedd Allweddol (A2 ac A3)

### 4.1 Cyflwyniad

Mae gwybodaeth sylfaenol (cymdeithas, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol) yn darparu'r sail ar gyfer darogan a monitro effeithiau amgylcheddol ac yn helpu i nodi materion amgylcheddol a ffyrdd eraill o ymdrin â nhw. Gan fod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn ddogfen graddfa genedlaethol, canolbwytwyd y gwaith o gasglu tystiolaeth sylfaenol ar ddata graddfa genedlaethol a rhai data gofodol is-genedlaethol ychwanegol pan yn briodol.

Mae'r Gyfarwydddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yn gofyn yn benodol i hyn gael ei ystyried. Mae'r blwch isod yn nodi gofyniad y Gyfarwydddeb Asesu Amgylcheddol Strategol ar gyfer cam hwn y broses.

*Blwch 3: Gofynion Rheoleiddio'r Asesu Amgylcheddol Strategol ar gyfer llinell sylfaen a nodi materion cynaliadwyedd allweddol*

Mae'r Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Asesiad Amgylcheddol Strategol drafod:

*'relevant aspects of the current state of the environment and the likely evolution thereof without implementation of the plan or programme' and, 'the environmental characteristics of the areas likely to be significantly affected' (Atodlen 2-2 a 2-3)*

*'any existing environmental problems which are relevant to the plan or programme including, in particular, those relating to any areas of a particular environmental importance, such as areas designated pursuant to Council Directive 79/409/EEC on the conservation of wild birds(a) and the Habitats Directive' (Atodlen 2-4)*

Mae deall nodweddion llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru yn hanfodol er mwyn gallu deall effeithiau'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Mae disgrifio llinell sylfaen, materion a chyd-destun amgylcheddol a chynaliadwy yn weithgaredd pwysig i ddiffinio'r Fframwaith ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae'n cynnwys yr elfennau canlynol:

- Disgrifio'r sefyllfa bresennol o ran llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru;
- Deall tueddiadau'r dyfodol yn seiliedig ar dueddiadau presennol ac amcanestyniadau ar gyfer y dyfodol a allai effeithio ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru; a
- Defnyddio'r wybodaeth hon i nodi problemau a chyfleoedd presennol y gallai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ddylanwadu arnynt.

### 4.2 Methodoleg

Disgrifiwyd y llinell sylfaen amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol gan ddefnyddio'r dulliau canlynol:

- Adolygu cynlluniau, strategaethau a rhaglenni rhyngwladol, DU a chenedlaethol (Cymru) perthnasol;
- Ymchwil data yn seiliedig ar gyfres o setiau data sylfaenol a ddatblygwyd o argymhellion Llywodraeth Cymru, canllawiau, ac ymgynghoriadau blaenorol o Arfarniadau Cynaliadwyedd tebyg a'r data sydd ar gael ar gyfer Cymru; a'r
- Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Cymru<sup>10</sup> sy'n darparu data ar raddfa genedlaethol ar draws 44 o ddangosyddion cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant.

Un ffynhonnell allweddol o wybodaeth yw'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a luniwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn 2016. Mae ffynonellau eraill yn cynnwys, er enghraifft, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a

<sup>10</sup> <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/national-indicators>



Stats Cymru. Mae Adroddiad Tystiolaeth Cynllun Morol Cymru (Hydref 2015)<sup>11</sup> wedi cael ei adolygu hefyd ac, mewn llawer o achosion mae hwn, ynghyd â'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a'r Polisi Adnoddau Naturiol yn manteisio ar yr un sail dystiolaeth genedlaethol. Mae setiau data sylfaenol wedi cael eu datblygu ac fe'u cyflwynir yn Atodiad B.

Galluogodd hyn hefyd i faterion a chyfleoedd cynaliadwyedd sy'n effeithio ar Gymru i gael eu nodi. Crynhoir y rhain yn Adran 4.3. Cyflwynir y set data sylfaenol lawn, gan gynnwys problemau, cyfleoedd a bylchau data, yn Atodiad B. Mae Atodiad B hefyd yn cynnwys ffigurau allweddol yn dangos Cymru yn ei chyfanrwydd, gyda nodweddion a dynodiadau allweddol fel a ganlyn:

- Ffigur 1 Safleoedd Cadwraeth Natur Dynodedig;
- Ffigur 2 Nodweddion Tirwedd;
- Ffigur 3 Nodweddion Treftadaeth; a
- Ffigur 4 Rhwydwaith Cludiant.

Rhannwyd y data sylfaenol yn ôl saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yna fe'u hisddosbarthwyd fesul pwnc. Ceir llawer o achosion o orgyffwrdd rhwng y setiau a'r pynciau sylfaenol. Cynrychiolir pob un o'r pynciau sylfaenol a nodir yn y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol.

Mae'r Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i asedau perthnasol gael eu hystyried yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae asedau perthnasol yn cyfeirio at y stoc o asedau gwerthfawr o fewn ardal astudio a gall gynnwys llawer o bethau o dirweddau gwerthfawr, treftadaeth naturiol a diwylliannol i stoc dai, ysgolion, ysbytai, ynni, seilwaith cyfleustodau a thir amaeth o ansawdd. At ddibenion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, mae asedau perthnasol Cymru yn cael eu trafod yn briodol yn yr adrannau llinell sylfaenol canlynol, ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn eu pwnc neilltuedig eu hunain:

- Bioamrywiaeth, fflora a ffawna;
- Ansawdd pridd a thir;
- Treftadaeth ddiwylliannol;
- Tirwedd;
- Tai; a
- Chludiant.

Mae'n bwysig nodi bod data sylfaenol, materion a chyfleoedd ar gyfer pob un o'r ffrydiau asesu integredig wedi cael eu casglu a'u cynnwys yn rhan o'r broses ac yn cael eu cyflwyno o dan y nodau Llesiant perthnasol.

## 4.3 Materion a Chyfleoedd Cynaliadwyedd Allweddol

Mae Tabl 4-1 yn cyflwyno'r materion a chyfleoedd cynaliadwyedd allweddol i Gymru wedi'u nodi ar draws y saith nod Llesiant ac is-benawdau pwnc yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, sy'n deillio o'r data sylfaenol (Atodiad B). Bydd y rhain yn cael eu mireinio a'u diweddarau ochr yn ochr â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd pan fydd rhagor o fanylion am gynnwys y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar gael.

### 4.3.1 Ystyriaethau troswyaol: Newid yn yr Hinsawdd a Chydnerthedd Ecosystemau<sup>12</sup>

Mae'r adolygiad o'r materion a'r cyfleoedd cynaliadwyedd allweddol wedi ceisio integreiddio egwyddorion newid yn yr hinsawdd a chydnerthedd ecosystemau trwyddo, yn ogystal â'r asesiadau effaith yn adran 2.2.2. Fodd bynnag, nodir er eglurdeb, y dylid ystyried yr adolygiad, ynghyd â Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, yn ei gyfanrwydd. Os nodir mater penodol felly o dan un pennawd pwnc, nid yw'n

<sup>11</sup> <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/marine-planning/other-supporting-evidence/wales-marine-evidence-report/?lang=cy>

<sup>12</sup> Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2016, ar gael yn: <http://naturalresources.wales/media/679405/chapter-4-resilience-final-for-publication.pdf>

golygu, o reidrwydd, na chaiff ei ystyried o dan un arall. Caiff yr holl amcanion asesu eu hystyried mewn modd cyfannol yn ystod yr asesiad.

Mae newid yn yr hinsawdd yn rhan annatod o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Nod y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant sy'n darparu gweledigaeth ar y cyd y dylai'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf weithio tuag atynt. Mae newid yn yr hinsawdd wrth wraidd y Ddeddf ac mae'n rhan annatod o'r holl Amcanion Llesiant. Mae'r Amcan Cydnerthedd yn amlygu'n benodol yr angen i addasu i newid yn yr hinsawdd. Dylid ystyried y risgiau troswyaol yn sgil newid yn yr hinsawdd, fel a grynhoir yn y *UK Climate Change Risk Assessment 2017 Evidence Report – Summary for Wales* wrth ddatblygu'r Fframwaith Datblygu Integredig ac, yn hynny o beth, cânt eu hadlewyrchu yn Atodiad B, Tabl 4-1 a Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

Mae'r term 'cydnerthedd' yn berthnasol i amrywiaeth eang o faterion, fel newid yn yr hinsawdd, iechyd, amaeth, datblygiad cymunedol, rheoli ariannol, cyfnod o sychder a rheoli'r risg o lifogydd. Cydnerthedd ecosystemau yw gallu ecosystemau i ymdrin â phethau sy'n tarfu arnynt, naill ai drwy eu gwrthsefyll, adfer ar eu hôl, neu addasu iddynt, wrth gynnal eu gallu i ddarparu gwasanaethau a buddion yn awr ac yn dyfodol.

Fel y nodir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2016), mae'r dystiolaeth yn nodi'r amrywiaeth o weithgareddau a chyfeiriad y gwelliannau sy'n debygol o wella cydnerthedd ecosystemau. Ceir ymagwedd ymarferol yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) ac mae'n cyflwyno'r syniad o gydnerthedd. Mae hon yn cydnabod pum nodwedd (a elwir weithiau'n 'agweddau') sy'n cryfhau cydnerthedd y gellid eu crynhoi fel a ganlyn:

- Amrywiaeth
- Maint
- Cyflwr
- Cysylltedd
- Y gallu i addasu

Os caiff ymyraethau eu targedu i'r nodweddion hyn, mae cydnerthedd yn debygol o gael ei ddatblygu neu ei wella, a dylai fod yn llai tebygol y bydd trothwyon annymunol yn cael eu croesi. Mae'r nodweddion hyn wedi eu cynnwys yn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, er mwyn gallu integreiddio'r egwyddorion hyn yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

#### **4.3.2 Brexit**

Er bod llawer o heriau ynghlwm wrth y penderfyniad i'r DU adael yr UE, cydnabyddir ei fod hefyd yn rhoi cyfle i lunio ffordd newydd ymlaen i Gymru. Mae'r gwaith yr ydym eisoes wedi'i wneud drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Cynllunio (Cymru) yn darparu sylfaen gref i adeiladu dyfodol Cymru. Fel Llywodraeth, rydym ni'n ymroddedig i weithio gyda'n gilydd i elwa i'r eithaf ar y cyfle i ffurfio rhaglenni, polisiau a rheoliadau yn y dyfodol sydd wedi eu haddasu'n bwrpasol ar gyfer cyd-destun ac anghenion unigryw Cymru.

Nodau Llesiant	Crynodeb o Faterion Allweddol	Cyfleoedd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fynd i'r afael â nhw
<p>1. Cymru lewyrchus</p>	<p>Mae economi Cymru wedi'i halinio'n agos ag economi gweddill y DU. Bu symudiad tuag at gyflogaeth sector gwasanaethau a dirywiad i ddiwydiant trwm; Mae gan Gymru sector gweithgynhyrchu amrywiol o hyd.</p> <p>Mae cynhyrchiant economaidd fesul pen yn is na chyfartaledd y DU.</p> <p>Cyfraddau cyflogaeth cymharol isel ac enillion isel o'u cymharu â rhannau eraill o'r DU, er bod y rhain wedi bod yn cynyddu.</p> <p>Ceir gwahaniaethau daearyddol eglur o ran gweithgarwch cyflogaeth yng Nghymru, gyda phocedi o amddifadedd uwch na'r cyfartaledd yng nghymoedd y de ac yn rhai o drefi arfordirol y gogledd. Ceir hefyd lefelau gwasgaredig o amddifadedd yng nghefn gwlad Cymru sy'n cynnwys materion yn ymwneud â lefelau incwm, prisiau tanwydd ac effeithlonrwydd ynni'r cartref.</p> <p>Mae tlodi'n effeithio ar rai plant sy'n byw yng Nghymru.</p> <p>Mae'r rhesymau allweddol am y perfformiad economaidd cymharol wael hwn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lefelau sgiliau cymharol isel a lefelau cyrhaeddiad addysgol gwael (er eu bod yn gwella), yn enwedig yn rhannau mwy difreintiedig y wlad.</li> <li>• Mae natur wledig helaeth y wlad yn arwain at ardaloedd trefol cymharol fach a fyddai'n fwy cysylltiedig ag effeithiau crynodref fel arall.</li> <li>• Ceir cyfran gymharol uchel o bobl hŷn sydd o oedran ymddeol.</li> <li>• Mae <i>UK Climate Change Risk Assessment 2017: Evidence Report</i> yn amlygu nifer o risgiau a chyfleoedd allweddol sy'n wynebu Cymru o ran busnes. Gallai'r rhain effeithio ar nifer o ffactorau gan gynnwys iechyd a llesiant, cyflogaeth</li> </ul>	<p>Mae gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ran i'w chwarae o ran cyflawni twf economaidd cytbwys a chynaliadwy, annog mewn-fuddsoddiad, cynyddu cyflogaeth a hyrwyddo strategaeth twf gwyrdd i fod yn sail i ffyniant a'r newid i economi defnydd isel o adnoddau (gan gynnwys carbon isel), i alluogi'r boblogaeth i fyw o fewn cyfyngiadau amgylcheddol.</p> <p>Mae'r Fframwaith Datblygu Cynaliadwy yn rhoi cyfle i'r economi gael ei llywio tuag at ddiwydiannau mwy cynaliadwy, gan geisio cyflawni'r targed allweddol o leihad o 80% o leiaf mewn nwyon tŷ gwyrdd erbyn 2050, fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru). Gall hyn fod trwy hybu datblygiad cyflogaeth briodol a chefnogi seilwaith, gan gynnwys seilwaith digidol a seilwaith teithio cynaliadwy, mewn ardaloedd i sicrhau cymaint o fanteision iddynt â phosibl. Gall hefyd ddarparu fframwaith sy'n fwy ymateb i anghenion yr economi ac yn gallu cefnogi sectorau newydd sy'n dod i'r amlwg a chefnogi gweddnewid sectorau presennol. Hefyd, gall helpu i lywio'r broses o greu amgylchedd sy'n ddeniadol i fewnfuddsoddiad ac yn annog mynediad cynaliadwy at swyddi. Yn rhan o hyn, dylai geisio rhoi sylw i'r gwahaniaethau daearyddol yn y wlad. Yn yr un modd, gallai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol hwyluso gwelliannau i ddarpariaeth addysgol a mynediad cynaliadwy, a dylai geisio mynd i'r afael â'r gwahaniaethau daearyddol yn y wlad.</p> <p>Bydd llawer o gynigion y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn ceisio mynd i'r afael â'r materion sy'n gysylltiedig â thlodi ac anghydraddoldeb drwy fynediad at addysg well, manau gwell i fyw ynddynt a mynediad at swyddi a'r farchnad swyddi.</p> <p>Mae cyfleoedd penodol i sectorau eraill yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gellid cynorthwyo cyfleoedd ar gyfer datblygu'r economi wledig drwy'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ochr yn ochr â rhaglenni sydd wedi sefydlu'n benodol ar gyfer ardaloedd gwledig fel <i>Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-</i></li> </ul>

Nodau Llesiant	Crynodeb o Faterion Allweddol	Cyfleoedd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fynd i'r afael â nhw
	<p>a'r economi. Gellir crynhoi materion o'r fath sy'n wynebu Cymru fel risgiau i fusnesau yn sgil llifogydd, colli lleoliadau arfordirol, prinder dŵr, llai o gyfalaf ar gael, llai o gynhyrchiant yn sgil tarfu ar seilwaith ac ati, tarfu ar gadwyni cyflenwi a newidiadau i'r galw am nwyddau a gwasanaethau. Dylid ystyried y rhain yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.</p>	<p>2020. Hefyd, gellid chwilio am gyfleoedd drwy'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i gefnogi twf yr economi wledig trwy fentrau micro a bach newydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gall mynediad at ryngrwyd cyflymder uchel fod yn broblem arbennig mewn cymunedau gwledig ac i'r rheini ag incymau isel. Gallai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol helpu i fynd i'r afael ag allgau digidol trwy geisio cynorthwyo'r ddarpariaeth o gysylltiadau cyflymder uchel.</li> <li>• Ceir cyfleoedd i dwristiaeth dyfu mewn ffordd gynaliadwy ac i wneud cyfraniad cynyddol at lesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru.</li> <li>• Yn gyffredinol, mae'n rhaid i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol helpu i sicrhau'r cydbwysedd pwysig o welliant economaidd a chymdeithasol sydd hefyd yn gynaliadwy ac yn parchu amgylchedd naturiol a diwylliannol gwerthfawr y wlad.</li> </ul>
<p>2. Cymru gydnherth</p>	<p><b>Ansawdd Aer</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae ansawdd aer yng Nghymru yn dda iawn yn gyffredinol, sy'n adlewyrchu ei natur bennaf wledig a'i hamgylchedd naturiol o ansawdd uchel. Fodd bynnag, nid oes cydymffurfiaid â thargedau o ran nifer o lygryddion allweddol (nitrogen deuocsid, deunydd gronynnol, nicel a hydrocarbonau aromatig polysyclig) sy'n peri risg i iechyd pobl yn enwedig iechyd grwpiau sy'n agored i niwed fel pobl ifanc, pobl hŷn a phobl â chyflwr ar y galon neu gyflwr anadlol a risg i'r amgylchedd naturiol. Mae'r rhain yn digwydd mewn ardaloedd trefol wrth ochr ffyrdd prysur gan amlaf ac yn cynnwys deunydd gronynnol a chrynodeiadau nitrogen deuocsid.</li> <li>• Mae amonia yn parhau i fod yn broblem fel llygrydd aer lleol a thrwy gyfrannu at ffurfio deunydd gronynnol eilaidd. Mae crynodeiadau o ddeunydd gronynnol eilaidd wedi cynyddu yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn bennaf oherwydd newidiadau mewn arferion amaethyddol.</li> <li>• Mae 90% o gynefinoedd Cymru sy'n sensitif o ran nitrogen</li> </ul>	<p><b>Ansawdd Aer</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gall y system gynllunio fod o fudd uniongyrchol i ansawdd aer a'i effeithiau trwy helpu i lywio penderfyniadau drwy'r broses gynlluniau yn ymwneud â lleoliad ffynonellau llygru a'u cymharu â derbynyddion sensitif fel ardaloedd preswyl, ysgolion, ysbytai a chynefinoedd sensitif. Hefyd, gall y system gynllunio helpu i gadw llygredd o drafnidiaeth mor isel â phosibl trwy sicrhau bod y pellter sy'n cael ei deithio gan gymundwyr mor isel â phosibl ac annog moddau teithio mwy cynaliadwy. Gallai polisiâu dylunio a thirlunio cynaliadwy helpu i gynnig cyfleoedd ar gyfer amsugno rhai llygryddion.</li> <li>• Yn fwy eang, dylai polisiâu cynllunio ar draws y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol helpu i ddarparu buddion ar gyfer ansawdd aer, a fydd hefyd yn arwain at fuddion datblygu cynaliadwy ehangach ar gyfer agweddau amgylcheddol eraill, yn ogystal â dangosyddion cymdeithasol ac economaidd, a fydd yn atgyfnerthu ei gilydd.</li> </ul>

Nodau Llesiant	Crynodeb o Faterion Allweddol	Cyfleoedd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fynd i'r afael â nhw
	<p>lled-naturiol yn destun gwaddodi nitrogen sy'n uwch na'r cyfyngiadau llwyth critigol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ers cyflwyno mesurau rheoli llygredd yr aer yn y 1980au mae ansawdd dŵr wyneb wedi adfer yn sylweddol rhag effeithiau asideiddio.</li> </ul> <p><b>Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan Gymru amgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol gan gynnwys cynrychiolaeth eang o gynefinoedd a rhywogaethau pwysig. Fodd bynnag, mae cyflwr nodweddion rhywogaethau mewn safleoedd dynodedig Ewropeaidd yng Nghymru a chyflwr cynefinoedd blaenoriaeth yng Nghymru yn dal i fod yn anffafriol ar y cyfan. Rhwng 2002 a 2008, ystyriwyd bod llai na hanner y rhywogaethau ar y rhestr Adran 7 interim yn sefydlog neu'n cynyddu o ran eu nifer. Ni wnaeth Cymru (ynghyd â'r DU gyfan) gyrraedd targedau bioamrywiaeth rhyngwladol a chenedlaethol 2010 (Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016).</li> <li>Mae bioamrywiaeth ar y tir, mewn dŵr croyw a dŵr y môr o dan fgythyriad yn sgil datblygiadau, llygredd a newid yn yr hinsawdd. Ceir effaith uniongyrchol ar yr holl rywogaethau yn sgil newid ansawdd a nifer cynefinoedd. Mae'r newidiadau hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â newidiadau yn nwyster cyfundrefnau rheoli. Mae darnio ac ewtroffigedd yn creu problemau penodol i lawer o rywogaethau. Mae Adroddiad Tystiolaeth CCRA17 wedi nodi risgiau i rywogaethau a chynefinoedd oherwydd eu anallu i ymateb i'r newidiadau mewn amodau hinsoddol. Gall fod cyfleoedd hefyd wrth i rywogaethau newydd gytrefu. I'r gwrthwyneb, gall bywyd gwyllt brodorol fod mewn perygl cynyddol yn sgil plâu, pathogenau a rhywogaethau goresgynnol. Ceir hefyd risgiau yn sgil newid yn amllder a/neu gryfder tywydd eithafol ac achosion o dannau gwyllt. Mae newid yn yr hinsawdd yn dylanwadu ar ehangiad neu grebachiad amrywiaeth a phoblogaethau rhai rhywogaethau, a gall y cynnydd yn amllder digwyddiadau hinsoddol eithafol, a</li> </ul>	<p><b>Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'n rhaid i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fod o fudd i fioamrywiaeth a'i gwella trwy lywio'r lleoliad a'r ffordd y mae datblygiad newydd yn digwydd. Mae'n cynnig cyfleoedd i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei diogelu a'i gwella drwy'r system gynllunio, nid yn unig o ran safleoedd gwarchoddedig ond hefyd o ran bioamrywiaeth a chysylltedd yn gyffredinol.</li> <li>Gall atebion yn seiliedig ar natur, fel seilwaith gwyrdd, helpu i gyflawni buddion lawer ledled Cymru, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gysylltiedig â'r materion allweddol a nodwyd fel cysylltedd cynefinoedd, y gallu i addasu i dymhereddau newidiol a microhinsoddau, ansawdd aer, ansawdd dŵr, perygl llifogydd ac ansawdd y pridd.</li> <li>Gellir chwilio am gyfleoedd i sicrhau'r manteision mwyaf posibl i ecosystemau trwy ddylunio a rheoli cynaliadwy. Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan ecosystemau a seilwaith gwyrdd yn gyfle sylweddol a gallent alluogi rhywogaethau i addasu i'r hinsawdd newidiol.</li> </ul>

Nodau Llesiant	Crynodeb o Faterion Allweddol	Cyfleoedd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fynd i'r afael â nhw
	<p>ragwelir mewn llawer o sefyllfaoedd newid hinsawdd arwain at oblygiadau difrifol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae dwyster y defnydd o adnoddau naturiol eisoes wedi effeithio'n ddifrifol ar ansawdd cynefinoedd a bioamrywiaeth. Gallai'r potensial i genedlaethau'r dyfodol fwynhau yr un buddion o adnoddau naturiol ac ecosystemau sydd gennym ni heddiw leihau os byddwn yn parhau i ddefnyddio neu reoli ein tir ar ddwyster sy'n arwain at or-ymwelwa ar y cyflenwadau. Ynghyd â defnyddiau tir a newidiadau i gynefinoedd o ganlyniad i hynny, mae'r modd yr ydym yn defnyddio ac yn ymelwa ar ein hadnoddau naturiol yn rhoi'r pwysau mwyaf amlwg ar fioamrywiaeth. Mae cynyddu dwyster defnydd a gor-ymelwa hefyd yn lleihau'r potensial y bydd ein cynefinoedd yn addasu i'r newid yn yr hinsawdd.</li> <li>• Mae'r <i>UK Climate Change Risk Assessment 2017: Evidence Report</i> yn amlygu nifer o risgiau a chyfleoedd allweddol sy'n wynebu Cymru o ran bioamrywiaeth, gan gynnwys y risgiau i rywogaethau a chynefinoedd a'r diffyg gallu i ymateb i amodau hinsoddol; newidiadau i gynhyrchiant amaethyddol a choedwigoedd; cynnydd mewn sychder a gwlybaniaeth tymhorol; effeithiau ar gronfeydd carbon naturiol ac enciliad carbon; effeithiau ar amaeth a bywyd gwyllt yn sgil prinder dŵr, plâu a digwyddiadau tywydd eithriadol ac ati; llifogydd, tymereddau dŵr uwch; cynydd yn lefel y môr; asideiddio'r cefnforoedd; newidiadau yn nodweddion y dirwedd a chyfleoedd i rywogaethau newydd gytrefu. Dylid ystyried y rhain yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.</li> </ul> <p><b>Perygl Llifogydd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae perygl llifogydd yn fater arwyddocaol yng Nghymru, gan gynnwys llifogydd arfordirol, afonol a dŵr wyneb. Bydd hyn yn cael ei waethgu yn y pen draw gan gynydd i ddigwyddiadau tywydd eithafol, felly bydd y perygl presennol i eiddo a busnesau, yn ogystal ag iechyd a llesiant, yn dod hyd yn oed yn fwy amlwg yn y pen draw.</li> </ul>	<p><b>Perygl Llifogydd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ran bwysig i'w chwarae i leihau'r risg o ganlyniad i'r perygl llifogydd presennol, yn ogystal ag o ran addasu i'r newid yn yr hinsawdd a chydnerthedd. Mae llifogydd ac erydu arfordirol</li> </ul>

Nodau Llesiant	Crynodeb o Faterion Allweddol	Cyfleoedd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fynd i'r afael â nhw
	<p>Gallai perygl llifogydd gael ei waethygu hefyd gan arferion defnyddio tir anghynaliadwy, gan gynnwys datblygu ac addasu sianeli, sy'n gallu arwain at gynnydd mewn cyfraddau llif ac erydiad o ganlyniad i hynny. Mae'r effaith ar yr economi leol o ganlyniad i lifogydd yn broblem allweddol hefyd – nid yn unig o ran costau glanhau/adfer/atgyweirio uniongyrchol, ond hefyd o effeithiau fel amharu ar wasanaethau lleol, busnesau lleol yn colli masnach (gan gynnwys amaethyddiaeth) a cholli diwrnodau gwaith.</p> <p><b>Daeareg a Phriddoedd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn y dyfodol, gallai peryglon daearegol newid fel ymateb i newid yn yr hinsawdd. Er enghraifft, erydu arfordirol, tirlithriadau, a llygredd o safleoedd cloddfeydd blaenorol. Mae hyn yn peri risg i'r amgylchedd dynol a naturiol.</li> <li>• Mae'r priddoedd o'r ansawdd gorau a'r tir amaethyddol mwyaf cynhyrchiol yn adnodd prin a chyfyngedig yng Nghymru ac mae ansawdd y pridd wedi gwaethygu dros amser ar draws pob cynefin, heblaw coetir. Ystyrir mai dim ond 30% o arwyneb pridd mawn Cymru sydd mewn 'cyflwr da'. Mae hyn yn bwysig ar gyfer bioamrywiaeth, cymeriad tirwedd, twristiaeth, cynhyrchiant amaethyddol a gwydnwch yn wyneb newid yn yr hinsawdd. Mae uwchbridd yng Nghymru, a phriddoedd mawnog yn arbennig, yn ddalfa garbon fawr y mae angen ei diogelu.</li> </ul>	<p>yn feysydd allweddol lle caiff effeithiau newid yn yr hinsawdd eu teimlo'n lleol. Gall y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol helpu i gynnig cyfarwyddyd ar leoliad a chynllun datblygiadau er mwyn helpu i sicrhau bod y risg hon cyn lleied â phosibl a hybu mesurau cydnerthedd. Fodd bynnag, nid mater sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd yn unig yw perygl llifogydd. Dylai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol geisio cyfeirio datblygiad i ffwrdd o ardaloedd lle ceir perygl llifogydd ar hyn o bryd a dylai ddarparu canllawiau ar leoliad a chynllun, yn ogystal ag ystyried cynnydd posibl yn y perygl o lifogydd yn sgil newid yn yr hinsawdd. Mae hefyd yn gyfle i wneud rhagor o waith gyda phartneriaid fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol, Fforymau Cydnerthedd Lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill fel Ymddiriedolaethau Natur a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol (ac eraill) wrth ddatblygu cynlluniau rheoli a diogelu rhag llifogydd yn rhan o annog rheolaeth gynaliadwy o dir ac ecosystemau.</p> <p><b>Daeareg a Phriddoedd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gyfle i lywio'r defnydd cynaliadwy o ddaeareg a phriddoedd Cymru. Yn benodol, dylid diogelu priddoedd a geoamrywiaeth gwerthfawr, nid dim ond safleoedd dynodedig statudol, rhag defnyddiau tir amhriodol, pa un a yw hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Dylid gwella cyfleoedd i elwa i'r eithaf ar fuddion oherwydd gallai fod ganddynt swyddogaeth bwysig o ran gwasanaethau ecosystem, yr economi, newid yn yr hinsawdd a phobl Cymru.</li> <li>• Dylai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol hefyd helpu i osgoi risgiau yn y dyfodol trwy reoli neu osgoi peryglon daearyddol drwy'r system gynllunio. Gall chwilio am ffynonellau olew a nwy confensiynol ac anghonfensiynol fod yn bosibilrwydd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddatgarboneiddio'r economi ac mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i</li> </ul>



Nodau Llesiant	Crynodeb o Faterion Allweddol	Cyfleoedd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fynd i'r afael â nhw
	<p><b>Amgylchedd Dŵr</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Nid yw ansawdd cyrff dŵr Cymru yn bodloni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o hyd, a dim ond 42% oedd o statws ecolegol da yn 2014. Mae arferion rheoli a datblygu tir yn gyfrannwr allweddol at ansawdd dŵr gwael.</li> <li>Yn llawer o afonydd Cymru, mae llifoedd yn arbennig o agored i niwed yn sgil newid yn yr hinsawdd gan eu bod yn tueddu i godi a gostwng yn gyflym mewn ymateb i lawiad. Gallai llifoedd cynyddol yn ystod y gaeaf hefyd gynyddu pwysau ar systemau carthffosiaeth a draenio a gwasgaru llygredd.</li> <li>Er y tybir bod Cymru'n gyfoethog o ran dŵr, mae eisoes yn wynebu heriau o ran cyflenwad a gall adnoddau dŵr fod yn gymharol brin yn ystod tywydd cynnes a sych estynedig.</li> <li>Mae Cynlluniau Rheoli Basn Afon Cymru yn nodi pedwar mater rheoli dŵr o bwys o dan ysgogydd yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ar gyfer gorfaethu a llygru'r aer, y tir a'r dŵr. Mae'r rhain yn cynnwys llygredd o garthffosiaeth a dŵr gwastraff; llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth; llygredd o ardaloedd gwledig a llygredd o loddfeydd.</li> <li>Roedd RBMP 2009 yn cynnwys mesurau ar draws sectorau a phob math o grynofeydd dŵr. Hon oedd y rhaglen gyntaf o fesurau statudol a ddatblygwyd yn benodol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Maent yn cynnwys camau i atal dirywiad a gwella statws cronfeydd dŵr.</li> </ul> <p><b>Mwynau a Gwastraff</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r data a gynhyrchwyd gan brosiect National Minerals Map of Wales a Aggregate Safeguarding Map of Wales<sup>13</sup></li> </ul>	<p>sicrhau lleihad o 80% mewn allyriadau carbon erbyn 2050. Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio i weithredu canlyniadau'r polisi ynni cyffredinol.</p> <p><b>Amgylchedd Dŵr</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gall y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ein helpu i lywio arferion datblygu a rheoli tir newydd mewn ffordd sy'n ceisio osgoi llygru cyrff dŵr. Dylai hefyd roi ystyriaeth i gyfyngiadau posibl y cyflenwad dŵr a hybu mesurau i leihau'r defnydd o ddŵr mewn datblygiadau. Dylid hefyd ystyried gwaredu dŵr yn gynaliadwy mewn datblygiadau. Gallai systemau draenio cynaliadwy ddarparu enghraifft o fodd y gellid ei ddefnyddio i reoli dŵr wyneb mewn modd cynaliadwy.</li> <li>Dylai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol hefyd ystyried effaith newid yn yr hinsawdd ar ansawdd a chyflenwad dŵr yn y dyfodol a sut y gellir hwyluso hyn drwy'r system gynllunio.</li> <li>Mae'n rhaid i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ystyried pwysau tua'r tir a thua'r môr a sicrhau bod dull integredig a chydweithredol o gynllunio pan fo'r systemau hyn yn rhyngweithio er mwyn elwa i'r eithaf ar gyfleoedd i ddatblygu ein moroedd yn gynaliadwy.</li> </ul> <p><b>Mwynau a Gwastraff</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ran bwysig i'w chwarae o ran galw am fwynau (trwy ddyheadau economaidd), cynllunio a rheoli. Gall helpu i lywio'r defnydd</li> </ul>

<sup>13</sup> <https://www.bgs.ac.uk/research/ukgeology/Wales/mineralsMap.html>



Nodau Llesiant	Crynodeb o Faterion Allweddol	Cyfleoedd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fynd i'r afael â nhw
	<p>yn cynorthwyo llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol drwy ddangos lleoliad a graddfa adnoddau mwynau ledled Cymru ac amlygu adnoddau mwynau agregau y dylid eu diogelu. Mae rheoli adnoddau mwynau yn gynaliadwy yn fater allweddol ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Mae'r mapiau adnoddau mwynau yn dangos yr holl fwynau a all fod yn adnodd yn ddaearegol yng Nghymru.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Cymru wedi gwneud cynnydd da o ran Uchelgais Dim Gwastraff 2050 ac mae'n parhau i leihau cyfran y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi. Fodd bynnag, bydd anghenion datblygu'r dyfodol yn parhau i roi pwysau ar y nod hwn.</li> <li>• Mae'r <i>UK Climate Change Risk Assessment 2017: Evidence Report</i> yn amlygu nifer o risgiau a chyfleoedd allweddol sy'n wynebu Cymru o ran seilwaith, gan gynnwys perygl llifogydd; erydu arfordirol; tir ansefydlog; cynhyrchu pŵer; cyflenwi dŵr a chyfnodau sychder; effaith ar drafnidiaeth a seilwaith digidol yn sgil gwyntoedd cryfion; effeithiau gwres a goleuadau; effeithiau ar seilwaith ar y môr yn sgil stormydd; a buddion posibl ar gyfer dŵr; trafnidiaeth; seilwaith digidol ac ynni yn sgil digwyddiadau oerni eithafol. Dylid ystyried y rhain yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.</li> </ul>	<p>cynaliadwy o adnoddau o'r fath trwy ei gynigion polisi a datblygiad strategol. Er enghraifft, dylai deunyddiau adeiladu fod ag ynni ymgorfforedig isel, dod o ffynonellau adnewyddadwy neu wedi'u gwneud o ddeunyddiau a ailgylchwyd. Dylai deunyddiau o'r fath ddod o'r DU yn ddelfrydol ac o ffynhonnell sy'n agos i'r safle er mwyn lleihau milltiroedd cludo gan ychwanegu at y cynnwys ynni ymgorfforedig.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nod Cronfa Economi Gylchol Llywodraeth Cymru (2017) yw cynyddu hyd y cyfnod y mae adnoddau ar gael o fewn yr economi a lleihau cymaint â phosibl faint o wastraff a gynhyrchir. Mae hyn yn cynnwys cynnydd arfaethedig i dargedau ailgylchu penodol a fyddai'n cynyddu faint o ailgylchu sy'n ofynnol a faint o ddeunyddiau ailgylchu sydd ar gael i'w defnyddio. Gall hefyd arwain at ffrydiau deunyddiau ailgylchu eraill, neu at gynllunio cynhyrchion ar gyfer eu hailgylchu a'u hailddefnyddio, a dylid ystyried hyn wrth asesu gofynion seilwaith, ynghyd ag ystyriaethau yn unol â Strategaeth Gwastraff Cymru, Tuag at Ddyfodol Diwastraff.</li> <li>• Ceir cyfle hefyd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol helpu i ystyried cyfansymiau gwastraff ac ailgylchu ochr yn ochr â'i uchelgeisiau ar gyfer datblygiad newydd. Gallai hyn gyflawni buddion fel gwella graddfa bioamrywiaeth tirwedd, lliniaru llifogydd, storio dŵr ac ati.</li> </ul>
<p>3. Cymru iachach</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae ystadegau iechyd cyffredinol ar gyfer Cymru yn gwella wrth i ddisgwyliad oes gynyddu a llai o bobl adrodd iechyd gwael dros y degawd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw enillion iechyd wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws y wlad ac, yn benodol, mae mynediad at wasanaethau yn amrywio – mae'n dda mewn ardaloedd mwy trefol, y de yn arbennig, ond yn gymharol wael ar draws lawer o Gymru wledig. Serch hynny, mae iechyd y rheini sy'n byw mewn cymunedau gwledig yn gymharol dda o'u cymharu â'r rheini mewn amgylcheddau trefol. Ychydig iawn o blant ysgol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn gyffredinol, mae'n rhaid i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol helpu i sicrhau'r cydbwysedd pwysig o welliant economaidd a chymdeithasol sydd hefyd yn gynaliadwy ac yn parchu amgylchedd naturiol a diwylliannol gwerthfawr y wlad.</li> <li>• Dylai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gydnabod y potensial ar gyfer mannau gwyrdd naturiol hygyrch, yn ogystal â mannau eraill yn yr awyr agored, fel lleoedd ar gyfer iechyd a hamdden, i bobl o bob oedran, gan gysylltu cynefinoedd a chynorthwyo rhyngweithio cymunedol. Nodir</li> </ul>

Nodau Llesiant	Crynodeb o Faterion Allweddol	Cyfleoedd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fynd i'r afael â nhw
	<p>gynradd (2%) ac oedolion (6%) sy'n seiclo fel modd o deithio i'r gwaith neu'r ysgol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ffactorau penodol i amgylchedd gwledig o'u cymharu â rheini mewn amgylcheddau trefol effeithio ar iechyd yn fwy sylweddol ac arwain at anghydraddoldeb ac iechyd gwaeth, fel pellter o wasanaethau cyhoeddus a chymorth, argaeledd trafnidiaeth, safonau tai a'r boblogaeth sy'n heneiddio. Gall mynediad at ofal iechyd fod yn gyfyngedig mewn llawer o rannau o Gymru wledig.</li> <li>Er bod pobl yn byw yn hwy a bod cyfraddau rhai afiechydon yn gostwng, gall heriau fel amgylchedd byw a ffyrdd modern o fyw gyfrannu at lefelau cynyddol o glefydau cronig fel diabetes, problemau â'r cymalau, clefyd y galon a rhai mathau o ganser a all, yn eu tro, arwain at anabledd a galw cynyddol ar wasanaethau iechyd. Hefyd, gall iechyd meddwl gwael hefyd fod yn ffactor sylfaenol mewn nifer o afiechydon corfforol a ffyrdd o fyw nad ydynt yn iach.</li> <li>Mae UK Climate Change Risk Assessment 2017: Evidence Report yn amlygu nifer o risgiau a chyfleoedd allweddol sy'n wynebu Cymru o ran pobl â'r amgylchedd adeiledig gan gynnwys risgiau i iechyd a llesiant gan dymereddau uchel, cynnydd mewn gweithgareddau yn yr awyr agored, llifogydd a lefel y môr yn codi, effaith ar strwythurau gan gynnwys adeiladdau o werth diwylliannol, ansawdd dŵr ac aer a bwyd gwael, ac effeithiau ar iechyd a'r gallu i ddarparu gofal iechyd a chymdeithasol yn sgil tywydd eithafol. Dylid ystyried y rhain yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.</li> </ul>	<p>targed Llywodraeth Cymru o sicrhau bod mannau gwyrdd naturiol hygyrch o fewn taith 6 munud (300m) ar droed o gartref. Gall gwella ansawdd a mynediad at fannau gwyrdd ac agored, cyfleusterau chwarae, hamdden a diwylliant ac amgylchedd dyfrol iachach annog ffyrdd iachach o fyw yn fawr. Gallai poblogaeth iachach alluogi pobl (gan gynnwys plant) i wireddu eu potensial a gwneud Cymru'n gymdeithas fwy cyfartal.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gall cynllun yr amgylchedd adeiledig fod â swyddogaeth bwysig wrth greu Cymru iachach, ac ystyrir llawer o'r agweddau ar hyn o dan benawdau eraill yn yr adroddiad hwn, fel tai, teithio llesol, patrymau datblygu, seilwaith gwyrdd, perygl llifogydd, newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth ac ansawdd aer, ymhlith eraill. Mae teithio llesol a lleihau arunigedd yn faterion pwysig i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fynd i'r afael â nhw o ran uchelgeisiau Llywodraeth Cymru. Mae cyfle i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ei gwneud yn bosibl i fwy o deithiau fod yn rhai llesol a lleihau teithiau car. Byddai hyn yn bosibl drwy greu cymdogaethau sy'n addas ar gyfer cerdded a seiclo gyda mannau diogel, uniongyrchol a deniadol ar gyfer cerdded a seiclo, wedi'u cysylltu gan rwydwaith cerdded a seiclo cenedlaethol a rhwydwaith cludiant cyhoeddus. Gall hyn hefyd ddarparu cyfleoedd i wella'r gallu i gael gafael ar gyfleusterau gofal iechyd.</li> <li>Gall tai da wella iechyd a lles; ond gall amodau tai gwael niweidio iechyd, yn enwedig o ran asthma, lleithder a llwydni. I blant, gall yr effeithiau bara drwy eu hoes. Mae'r gallu i gael swyddi sy'n talu'n dda a'r effaith bosibl yn sgil hynny ar safonau byw hefyd yn ffactor bwysig.</li> <li>Mae gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gyfraniad pwysig i'w wneud at sicrhau bod heriau iechyd yn cael sylw er mwyn gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldeb. Dylai penderfyniadau cynllunio roi ystyriaeth i sut y byddant yn effeithio ar bobl ar wahanol gyfnodau ynystod oes cenedlaethau'r dyfodol.</li> </ul>

Nodau Llesiant	Crynodeb o Faterion Allweddol	Cyfleoedd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fynd i'r afael â nhw
		<ul style="list-style-type: none"> <li>Enghraifft o un ffordd bosibl pan all cynllunio'r defnydd o dir gynyddu cyfleoedd i bobl ymgysylltu â'u hamgylchedd lleol yw trwy randiroedd a chynlluniau tyfu cymunedol. Gallai cyfleoedd teithio llesol trwy ddarparu llwybrau cerdded a seiclo diogel a rhyng-gysylltiedig hefyd ddarparu buddion iechyd noferus, yn gorfforol ac yn feddyliol, yn ogystal â chreu buddion amgylcheddol ac economaidd.</li> </ul>
<p>4. Cymru sy'n fwy cyfartal</p>	<p>Gallai lefelau cydlynid cymunedol gael eu heffeithio trwy gynydd rhagamcanol i fudo net yn bennaf o'r tu mewn i'r DU a rhagwelir y bydd y cynnydd mwyaf mewn ardaloedd trefol. Fodd bynnag, nodir bod dros 70% o bobl yn cytuno bod pobl o wahanol gefndiroedd yn eu hardal yn cyd-dynnu'n dda.</p> <p>Gallai niferoedd cynyddol o bobl sy'n 65 oed a hŷn greu pwysau ar draws y wlad (yn dibynnu a fydd disgwyliad oes iach h.y. y nifer o flynyddoedd yr ydych yn byw bywyd iach, yn parhau i olrhain disgwyliad oes cyffredinol) gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Pwysau ar wasanaethau iechyd i ddarparu gofal priodol;</li> <li>Argaeledd cartrefi preswyl i ddiwallu anghenion y boblogaeth gyfan, gan gynnwys ond heb eu cyfyngu i'r henoed ac oedolion ag anabledd dysgu; a</li> <li>Darpariaeth o wasanaethau priodol ar gyfer cenedlaeth hŷn (e.e. trafndiaeth).</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn gyffredinol, gall y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol helpu i fynd i'r afael â'r materion sy'n gysylltiedig â'r boblogaeth sy'n heneiddio trwy hwyluso'r ddarpariaeth o wasanaethau hygyrch wedi'i chefnogi gan seilwaith cysylltiol i ddiwallu anghenion twf poblogaeth lleol.</li> <li>Gallai'r trydydd sector/gwirfoddoli wella cydlynid mewn cymuned trwy gynyddu lefelau cyflogaeth a chyfrannu at lesiant y trigolion o safbwynt cymdeithasol.</li> <li>Gall Cymru gyfartal helpu pobl i gyrraedd eu potensial llawn gan fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Gallai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gynnig cyfle i leihau arwahanrwydd ac annod y datblygiad o gymunedau integredig y mae'n werth byw ynddynt. Mae'n hanfodol bod yr amgylchedd adeiledig mewn cymunedau yn cael ei gynllunio a'i addasu mewn modd sy'n addas ar gyfer oedran fel ei fod yn addas ar gyfer pobl o bob oed. Gall cynyddu cyfleoedd i bobl hŷn ac anabl gymryd rhan yn lleol wneud llawer i roi hwb i annibynniaeth, gwrthsefyll arunigedd cymdeithasol ac unigedd a hybu iechyd a llesiant. Dylai'r holl bobl hŷn ac anabl fod yn gallu defnyddio'r holl amgylcheddau awyr agored a manau cyhoeddus ledled Cymru, ynghyd â phobl ifanc. Mae strydoedd diogel a hygyrch, manau i gyfarfod a chymdeithasu ynddynt sy'n rhwydd eu cyrraedd ar gludiant cyhoeddus a chymunedol, a digon o seddi cyhoeddus a thoiledau cyhoeddus yn ein cymunedau i gyd yn helpu l hwyluso hyn. Dylai'r ddarpariaeth o dai fod yn addas ar gyfer pobl o bob oed, er mwyn creu cymdeithas deg, ond</li> </ul>

Nodau Llesiant	Crynodeb o Faterion Allweddol	Cyfleoedd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fynd i'r afael â nhw
<p>5. Cymru o gymunedau cydlynus</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae arolygon yn awgrymu, yn 2014, bod 70% yn cytuno â'r datganiad 'mae fy ardal leol wedi ei chynnal a'i chadw'n dda', a bod 77% yn cytuno bod eu hardal leol yn rhydd o graffiti a fandaliaeth. Mae'r ffigurau hyn ar eu huchaf mewn ardaloedd gwledig fel Powys a Sir Benfro ac ar eu hisaf ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful.</li> <li>Yn 2014, roedd 64% o bobl o'r farn ei bod yn ddiogel i'w plant chwarae allan, ond nid oedd 25% yn cytuno, sy'n golygu bod problemau ynghylch y lefel o ddiogelwch tybiedig mewn cymdogaethau. Tybiwyd mai Ynys Môn oedd y lle mwyaf diogel ac mai Blaenau Gwent oedd y lle lleiaf diogel.</li> <li>Mae lefelau amddifadedd tai yn gymharol uchel mewn pocedi o'r canolfannau trefol yn y de ac yn ardaloedd mwy gwledig y gogledd-orllewin. Rhwng 2008-09 a 2014-2015, roedd 23% o bobl yng Nghymru yn byw mewn aelwydydd a oedd mewn tlodi incwm (ar ôl costau tai) – roedd hyn yn golygu mai Cymru oedd â'r ganran uchaf o dlodi aelwyd o'i chymharu â rhannau eraill y DU</li> <li>Mae lefelau llygredd sŵn o gwmpas ffyrdd allweddol yng Nghymru yn uchel. Gall sŵn gael effeithiau amrywiol, gan gynnwys ar dderbynyddion tirwedd, adnoddau ecolegol ac iechyd pobl.</li> </ul>	<p>hefyd er mwyn gwneud defnydd effeithlon o dai.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gefnogi'r ddarpariaeth ar gyfer amrywiaeth o dai a mathau eraill o lety sy'n diwallu anghenion y boblogaeth ac yn hybu cymunedau diogel a chynaliadwy. Gallai hyn fod trwy ddulliau fel nodi lleoliadau tai strategol a/neu ddatblygu targedau tai cenedlaethol.</li> <li>Bydd gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol swyddogaeth allweddol yn narpariaeth tai fforddiadwy ar lefel genedlaethol.</li> <li>Dylai creu cymunedau diogel wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, lle ceir synnwyr o gydlyniaid, fod yn flaenoriaeth.</li> <li>Dylai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gynllunio hefyd ar gyfer lleihau'r angen i deithio, a chynnig cyfleoedd i ddatblygiadau a gwasanaethau presennol fod yn rhwydd eu defnyddio trwy amrywiaeth o foddau teithio cynaliadwy a/neu welliannau i gysylltedd digidol. Dylai hyn geisio lleihau'r ddibyniaeth ar y car preifat. Dylai seilwaith priffyrdd fodloni anghenion pobl, gan ganolbwyntio ar flaenoriaethu llwybrau a rhwydweithiau cerdded a seiclo diogel, uniongyrchol a deniadol ar gyfer teithiau trefol o lai na 5 milltir.</li> <li>Dylai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol geisio sicrhau bod rhwydwaith trafndiaeth gwbl integredig yn cael ei ddatblygu yng Nghymru, gyda threnau a bysiau yn gysylltiedig â mathau eraill o drafnidiaeth gan gynnwys cludiant cymunedol, llwybrau cerdded a seiclo, ac integreiddio gwell rhwng trafndiaeth a gwasanaethau allweddol. Dylai hefyd sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud i seilwaith trafndiaeth yng Nghymru er mwyn gwella'r gallu i ddefnyddio gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus.</li> <li>Dylai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ystyried cynigion trafndiaeth strategol o ran y cyfleoedd y maent yn eu cynnig i annog cydraddoldeb rhanbarthol yn ogystal â</li> </ul>

Nodau Llesiant	Crynodeb o Faterion Allweddol	Cyfleoedd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fynd i'r afael â nhw
		<p>gwella iechyd dynol, y dirwedd a chadwraeth natur o ostyngiad i lygredd sŵn a golau.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol helpu i gefnogi cymunedau cydlynus e.e. integreiddio lleoedd a rhwydweithiau ar gyfer cydnerthedd iechyd, cynefinoedd a hinsawdd mewn cynigion tai a thrafnidiaeth.</li> <li>Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn canolbwyntio ar gynllunio datblygiadau newydd. Byddai'n ddefnyddiol hefyd i gyflwyno adfywio ac ôl-osod fel dulliau cynllunio pwysig ar gyfer mynd i'r afael â'r problemau cymdeithasol, iechyd a llesiant y mae cymunedau presennol yn eu hwynebu.</li> </ul>
<p>6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</p>	<p><b>Y Gymraeg</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bu tueddiad am i fyny ers y 1990au i nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg, gan nodi amrywiadau rhanbarthol mawr; ceir cyfleoedd i gynyddu lefelau rhugled.</li> </ul> <p><b>Cymeriad Tirwedd, Treflun a Morwedd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Cymru yn adnabyddus am ei thirweddau o ansawdd uchel ac mae dros 50% o'r arwynebedd tir yn cael ei werthfawrogi'n genedlaethol am ei ansawdd a'i gymeriad golygfaol, a 25% o'r tir wedi'i ddynodi'n Barciau Cenedlaethol. Mae gan hyn oblygiadau i ddatblygiad newydd yn yr ardaloedd hyn a her allweddol i reolaeth gynaliadwy allu hwyluso lefelau priodol o dwf gan gadw nodweddion unigryw lleoedd a thirweddau yn ogystal â chynnal a gwella eu 'rhinweddau arbennig'. Mae'n rhaid i hyn hefyd gydnabod bod elfennau naturiol a hanesyddol y dirwedd yn bwysig i le a gwerth diwylliannol tirwedd.</li> <li>Mae cymeriad a thawelwch tirwedd eisoes dan bwysau o ddatblygiad a chollwyd tua 1,500 cilomedr sgwâr o dirweddau tawel rhwng 1997 a 2009.</li> <li>Hefyd, ceir risgiau nad ydynt yn anthropogenig i dirweddau o blâu, pathogenau a rhywogaethau ymledol ac o newidiadau i amllder a/neu raddfa newid yn yr hinsawdd,</li> </ul>	<p><b>Y Gymraeg</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gyfle i gyfranu tuag at lesiant y Gymraeg yn y dyfodol drwy sefydlu amodau i ganiatáu i gymunedau cynaliadwy ffynnu.</li> </ul> <p><b>Cymeriad Tirwedd, Treflun a Morwedd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan y system gynllunio ran fawr i'w chwarae o ran sut y mae datblygiad yn y dyfodol yn effeithio ar dirwedd, treflun, morwedd a synnwyr o le yn gyffredinol.</li> <li>Dylai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ystyried sut y mae ardaloedd o adnoddau a chydannau tirwedd a threflun sy'n cyfrannu at unigrywedd tirwedd yn dod ag amrywiaeth eang o fuddion lluosog at ei gilydd ar gyfer yr economi (trwy dwristiaeth ond hefyd drwy wneud lleoedd yn fwy deniadol ar gyfer mewnfuddsoddi), yn gymdeithasol (drwy fuddion iechyd a llesiant) yn ogystal ag yn amgylcheddol (o safbwynt tirwedd, ansawdd yr aer, treftadaeth, dŵr, pridd a bioamrywiaeth yn arbennig). Yn gysylltiedig â'r seilwaith gwyrdd hwn ceir amrywiaeth eang o seilwaith glas, y gellir ei ddarparu trwy gamlesi a dyfrffyrdd Cymru. Mae seilwaith o'r fath yn cysylltu mannau a chymunedau, yn ogystal â bod yn nodwedd yn eu hunain.</li> </ul>

Nodau Llesiant	Crynodeb o Faterion Allweddol	Cyfleoedd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fynd i'r afael â nhw
	<p>tywydd eithafol a digwyddiadau tannau gwyllt.</p> <p><b>Yr Amgylchedd Hanesyddol, Treftadaeth ac Asedau Diwylliannol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan Gymru gyfoeth o asedau hanesyddol a diwylliannol sy'n elfennau pwysig o hunaniaeth ddiwylliannol genedlaethol. Mae llawer o asedau o'r fath mewn perygl yn sgil, er enghraifft, dirywiad, ffactorau hinsoddol, esgeulustod, llai o gyllid a datblygiad amhriodol. Yn yr un modd â ffactorau amgylcheddol eraill, mae cydnabod, diogelu, gwella a hybu asedau treftadaeth ddiwylliannol ac asedau hanesyddol yn her allweddol ar gyfer cynllunio a rheolaeth gynaliadwy.</li> <li>Nododd Arolwg Cenedlaethol Cymru a gwybodaeth ystadegol arall pa mor bwysig yw diwylliant i dwristiaeth, gan amlygu'r ymweliadau ag atyniadau treftadaeth, amgueddfeydd a'r celfyddydau ledled Cymru.</li> <li></li> </ul>	<p><b>Yr Amgylchedd Hanesyddol, Treftadaeth ac Asedau Diwylliannol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Yn yr un modd â thirwedd, mae gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ran fawr i'w chwarae o ran diogelu a gwella yr amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol trwy ddarparu canllawiau i'r system gynllunio. Dylai hyn gynnwys y gydnabyddiaeth bod asedau treftadaeth annynodedig hefyd yn rhan bwysig o hunaniaeth hanesyddol a diwylliannol a synnwyr o le a bod effeithiau anuniongyrchol ar leoliad asedau hefyd yn ystyriaethau pwysig.</li> <li>Mae cyfleoedd hefyd yn bodoli i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol hybu ymwybyddiaeth o dreftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol ac annog gwelliant i ganolfannau addysgol diwylliannol.</li> <li>Mae cyfleoedd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ddarparu fframwaith i gydnabod, diogelu, hyrwyddo a gwella asedau diwylliannol a allai helpu i ddarparu twristiaeth, twf economaidd ac adfywiad.</li> </ul>
<p>7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi bod yn gostwng yn gyson yng Nghymru, ond mae llawer iawn i wneud o hyd i fodloni'r targedau allyriadau.</li> <li>Mae'r gostyngiad hwn yn rhannol o ganlyniad i newid graddol i gynhyrchiad ynni i ynni adnewyddadwy a thanwyddau glanach ynghyd â gwelliannau technolegol ac effeithlonrwydd mewn diwydiannau. Fodd bynnag, ceir heriau unwaith eto i gynnal y tueddiadau cadarnhaol hyn.</li> <li>Mae ôl-troed byd-eang bras Cymru yn uchel o'i gymharu â gwledydd datblygedig eraill. Ceir her i leihau hyn gan hefyd hwyluso datblygiad newydd a thwf economaidd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gyfle i helpu i gyflawni economi carbon isel ffyniannus drwy hybu datblygiadau carbon isel gan gynnwys tanwyddau carbon isel a safonau gwell o effeithlonrwydd ynni mewn diwydiant a datblygiadau preswyl.</li> <li>Mae gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gyfle i helpu i sicrhau cyflawni targedau'r Llywodraeth o ran ynni adnewyddadwy newydd yn creu capasiti a hybu mesurau arbed ynni mewn adeiladau.</li> <li>Mae gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gyfle i ddangos ei bod yn bosibl i gyflawni twf economaidd heb greu tef mewn traffig ar y ffyrdd a'r cynnydd cysylltiedig mewn allyriadau carbon deuocsid.</li> <li>Ceir cyfle i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ddarparu Fframwaith cenedlaethol y gellir darparu'r gwaith o</li> </ul>



Nodau Llesiant	Crynodeb o Faterion Allweddol	Cyfleoedd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fynd i'r afael â nhw
		<p>gynhyrchu ynni o ffynonellau di-garbon a charbon isel yn ei erbyn. Gallai hyn gynnwys hybu cynlluniau ynni a berchnogir yn lleol/cymunedol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gyfle i roi mwy o bwyslais ar leihau'r galw am ynni, i raddau sy'n adlewyrchu'r uchelgais sydd ymhlyg yng Nghyllidebau Carbon Cymru a osodwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.</li> <li>• Mae gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gyfle i leihau allyriadau drwy amlygu'r cyfleoedd o adnoddau naturiol ac arallgyfeirio'r sector ynni h.y. annog mwy o gymysgedd o ynni, am resymau diogelu'r cyflenwad, fforddiadwyedd a ffactorau hinsawdd.</li> <li>• Gallai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol wireddu potensial y dechnoleg iawn yn y man iawn (rhwydweithiau gwres, gwynt, môr).</li> <li>• Mae gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol y potensial i nodi'r angen am seilwaith ynni, a chefnogi datblygiad y seilwaith hwnnw, fel trosglwyddiadau trydan a dosbarthiad grid.</li> <li>• Mae gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol y potensial i gefnogi rhwydweithiau ynni sydd wedi'u datganoli; gan adlewyrchu'r amcan o sicrhau mwy o berchnogaeth cymunedol a lleol o ynni adnewyddady, gan annog lleihad yn y galw.</li> <li>• Mae gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol y potensial i nodi a chefnogi arloesedd a thechnolegau sy'n ymddangos ym maes ynni wrth ddatgarboneiddio Cymru.</li> </ul>

## 5 Y Broses Arfarnu a Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (A4)

### 5.1 Y Broses Arfarnu

Mae Adran 2 yr Adroddiad hwn yn disgrifio camau Proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac mae Cam B yn cyfateb i'r arfarniad o effeithiau posibl y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Ar y cam hwn, nid yw union gynnwys neu strwythur y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol wedi cael ei ddatblygu eto, er y rhagwelir y gallai gynnwys cyfres o bolisiau a/neu strategaeth ofodol a fydd yn darparu'r cyd-destun ar gyfer darparu datblygiad a pholisi cenedlaethol.

Bydd angen felly i'r dull o arfarnu elfennau'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gadw elfen o hyblygrwydd tan i'r cynnwys terfynol gael ei ddatblygu'n fwy manwl. Fodd bynnag, mae'n bosibl amlinellu egwyddorion sylfaenol y dull, gan gynnwys Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a fydd yn cael ei ddefnyddio. Mae'r egwyddorion canlynol yn sail i'r dull arfarnu:

- Bydd yn arfarniad ansoddol yn bennaf (paragraffau 5.B.10 a 5.B.11 Canllaw Ymarferol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol).
- Bydd yn cael ei gynnal gan ymarferwyr Arfarnu Cynaliadwyedd proffesiynol, wedi'u cynorthwyo gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar yr asesiadau effaith integredig (paragraffau 5.B.10 and 5.B.11 Canllaw Ymarferol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol).
- Bydd yr arfarniad yn dilyn dull asesu integredig ac ailadroddol (Ffigur 6 a pharagraffau 2.26-2.28 Canllaw Ymarferol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol).
- Bydd ymgysylltu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gan gynnwys cyfres o weithdai hefyd yn cael ei gynnal i alluogi rhanddeiliaid arbenigol eraill (ochr yn ochr â'r ymgylgoreion statudol) i gyfrannu at yr arfarniad (pennod 3 Canllaw Ymarferol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol).
- Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o amcanion arfarnu (Tabl 5-3) fydd y prif ddull arfarnu (paragraffau 5.1.12 a 5.1.13 Canllaw Ymarferol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol).
- Bydd yr arfarniad yn seiliedig ar dystiolaeth (gan ddefnyddio setiau data ansoddol a meintiol) ac yn ystyried effeithiau tebygol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar linell sylfaen cynaliadwyedd (llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol) Cymru (paragraffau 5.A.5-9 Canllaw Ymarferol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol).
- Bydd yr arfarniad yn cynnwys sylw i effeithiau gofodol y cynllun ac yn defnyddio tystiolaeth o gyfyngiadau, sensitifrwydd a chyfleoedd ffisegol, cymdeithasol ac economaidd (paragraffau 5.A.5 a 5.A.6 Canllaw Ymarferol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol).
- Bydd yr arfarniad yn defnyddio matricesau er mwyn helpu i ddisgrifio effeithiau posibl y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn erbyn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (Atodiadau 6 a 7 Canllaw Ymarferol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol).
- Fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol, bydd yr arfarniad yn ystyried effeithiau uniongyrchol/anuniongyrchol; effeithiau eilaidd, cronol a synergyddol (gweler Tabl 5-1); effeithiau dros le ac amser (hirdymor, tymor canolig a byrdymor); gwrthdroadwyedd effeithiau; effeithiau trawsffiniol a lefelau hyder yn yr arfarniad (Atodiadau 7 ac 8 Canllaw Ymarferol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol).
- Bydd yr arfarniad yn ailadroddol ac yn cynnwys adborth ar argymhellion i dîm y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i nodi mesurau i liniaru rhag unrhyw effeithiau negyddol a nodir neu i gynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol ymhellach (Atodiad 7 Canllaw Ymarferol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol).
- Bydd yr opsiynau a ffefrir ar gyfer elfennau'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'u hopsiynau amgen rhesymol yn cael eu harfarnu (Atodiad 6 Canllaw Ymarferol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol).



Nodir bod y dull canlynol yn adlewyrchu gofynion y Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol. Pan fo'n berthnasol, mae rhan briodol 'A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive'<sup>14</sup> wedi cael ei chynnwys mewn cromfachau yn y rhestr uchod. Mae Tabl 5-4 yn dangos sut y mae gofynion y Gyfarwydeb Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi cael eu cynnwys yn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o amcanion i'w defnyddio i arfarnu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

Tabl 5-1 Diffiniadau o Effeithiau Eilaidd, Cronnol a Synergyddol

Math o Effaith	Diffiniad
Eilaidd (neu anuniongyrchol)	Effeithiau nad ydynt yn ganlyniad uniongyrchol o'r cynllun (y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol), ond yn digwydd i ffwrdd o'r effaith wreiddiol neu o ganlyniad i lwybr cymhleth.
Cronnol	Effeithiau sy'n codi, er enghraifft, pan fo sawl datblygiad yn arwain at effeithiau nad ydynt yn arwyddocaol ond yn arwain at effaith arwyddocaol gyda'i gilydd; neu pan fo sawl effaith unigol y cynllun (e.e. sŵn, llwch a gweledol) yn arwain at effaith gyfunol.
Synergyddol	Effeithiau sy'n rhyngweithio i greu effaith lawn sy'n fwy na swm yr effeithiau unigol.

Ffynhonnell: A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive, ODPM

### 5.1.1 Dull o Gynnal Asesiadau Effaith

Mae ein dull integredig o asesu effaith y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn dod ag asesiadau allweddol ynghyd yn un fframwaith arfarnu unigol. Wedi'u gosod yng nghyd-destun y saith nod llesiant, mae'r meysydd amrywiol i'w hystyried yn cynnwys yr agweddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar Gymru nawr, ac yn y dyfodol. Mae Ffigur 5-1 yn dangos sut y mae'r elfennau hyn yn cyd-fynd â'i gilydd.

Mae canllawiau ar yr asesiadau effaith, pan fônt ar gael, yn nodi'r dulliau i'w dilyn ar gyfer pob un o'r asesiadau effaith; maent yn cynnwys y camau canlynol yn gyffredinol:

- Sgrinio/ cwmpasu.
- Asesu – nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol a chyfleoedd ar gyfer hybu gan gynnwys cydraddoldeb, hawliau plant a'r Gymraeg.
- Adrodd ac argymhellion – sicrhau tryloywder y broses a ddefnyddiwyd a chyflwyno manylion y penderfyniadau a wnaed, gan gynnwys pa fesurau osgoi a lliniaru a gynigir.
- Adolygu, monitro ac arfarnu.

Mae'r dull hwn yn dilyn y strwythur cyfatebol i'r un a gynigir ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, sy'n eu galluogi i gael eu hintegreiddio'n effeithiol. Cyflwynir rhagor o fanylion yn adran 2 yr adroddiad hwn. Mae Tabl 5-5 yn dangos sut y mae gofynion yr asesiadau effaith wedi cael eu cynnwys yn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o amcanion i'w defnyddio i arfarnu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

### 5.1.2 Cwmpas Daeryddol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Bydd cwmpas daeryddol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cael ei ysgogi gan gwmpas daeryddol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol h.y. Cymru gyfan. Mae graddfa ddaeryddol materion sylfaenol penodol yn golygu y byddant yn cysylltu'n agos â'n cymdogion yn Lloegr, ac Iwerddon o bosibl. Er enghraifft, gall mudo a chymudo cyflogaeth, darparu gwasanaethau ac addysg oll arwain at lifoedd o bobl ar draws ffiniau. Mae hyn hefyd yn golygu bod effeithiau ar y tir ac ar y môr (hyd at y marc distyll cyfartalog) yn bosibl ac y bydd angen eu hystyried.

### 5.1.3 Cwmpas Amser yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig


<sup>14</sup> ODPM, Gweithrediaeth yr Alban, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon 2005

Bwriedir i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fod yn berthnasol tan 2040 ar ôl ei gyhoeddi yn 2020. Bydd yr amserlen hon yn cael ei hadlewyrchu yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Os yw'n debygol y bydd unrhyw effeithiau cynaliadwyedd o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a fyddai'n para'n hwy na hyn, byddai'r rhain yn cael eu hystyried hefyd.

#### **5.1.4 Aseidiadau o Opsiynau Amgen**

Mae'n un o ofynion y Gyfarwydddeb Aseiad Amgylcheddol Strategol bod opsiynau amgen rhesymol yn cael eu hasesu ac, felly, bydd opsiynau amgen yn cael eu hasesu gan ddefnyddio Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Ar y cam hwn, nid yw math ac amrywiaeth opsiynau amgen rhesymol yn hysbys, er y tybir y gallant gynnwys, er enghraifft, opsiynau ar gyfer blaenoriaethau gofodol strategol o wahanol ddulliau polisi. Bydd yr arfarniad yn pennu effeithiau cadarnhaol a niweidiol cymharol pob opsiwn gan ddefnyddio Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, fel y gall Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r wybodaeth hon i hysbysu ei phenderfyniad i ddethol yr opsiynau a ffefrir. Bydd cwmpas ar gyfer lliniaru yn cael ei ystyried a bydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru gyfiawnhau ei dewis o opsiynau amgen a'r rhesymau dros ddewis y dulliau a ffefrir.

## Aseidiadau Effaith Integredig



**Allwedd:**

- Llywodraeth
- Statudol



Nodau Llesiant



Aseidiadau Effaith Integredig



Cydrannau Datblygu Cynaliadwy

## 5.2 Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Er mwyn profi perfformiad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, rydym wedi sefydlu Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig sy'n cynnwys 17 o amcanion Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig (yn cwmpasu materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol). Nodir y bydd asesiad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gan ddefnyddio'r Fframwaith yn ystyried cynnwys y Fframwaith cyfan mewn modd cyfannol. Mae meysydd pwnc wedi eu grwpio ar sail barn broffesiynol er eglurder. Fodd bynnag, bydd yr asesiad yn cwmpasu'r rhyngberthynas rhwng pob un o'r amcanion ac yn llywio cwestiynau, pan fyddant yn berthnasol i'r asesiad.

Mae Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar wahân i'r Amcanion y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac amcanion llesiant ehangach y Llywodraeth, er y gallai fod rhywfaint o orgyffwrdd rhyngddynt.

Tabl 5-2 Esboniad o'r Amcanion

Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig	Defnyddir y rhain i brofi perfformiad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol er mwyn caniatáu i lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol gael ei ystyried yn llawn.
Amcanion llesiant Llywodraeth Cymru	Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n nodi sut y byddwn yn defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 er mwyn helpu i gyflawni ein rhaglen lywodraethu a sicrhau ein bod yn cyfrannu gymaint â phosibl at y saith nod llesiant cenedlaethol a rennir.
Amcanion y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol	Bydd amcanion y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar lefel genedlaethol wedi eu pennu gan y nodau ac amcanion llesiant, y Rhaglen Lywodraethu; Ffyniant i Bawb: y Strategaeth i Gymru a pholisïau allweddol eraill y Llywodraeth, fel y Polisi Adnoddau Naturiol, y Strategaeth Drafnidiaeth, Strategaeth yr Economi ac yn y blaen. Bydd yr amcanion yn trafod materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

Er mwyn helpu i fesur perfformiad elfennau'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn erbyn Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, ategir y rhain gan gyfres o gwestiynau. Mae data sylfaenol ar y raddfa genedlaethol ac is-genedlaethol wedi cael eu casglu (gweler Atodiad B), gan fod hyn yn cynnig ffordd o ddarganfod perfformiad cyfredol ledled Cymru a mesur faint o ymyrraeth neu faint o waith sydd angen ei wneud i sicrhau cyfeiriad cadarnhaol o ran sicrhau datblygu mwy cynaliadwy. Cyflwynir Fframwaith Drafft yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn Nhabl 5-3 isod.

### 5.2.1 Datblygu Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Datblygwyd Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig gan ddefnyddio'r canlynol:

- Adolygiad o gynlluniau, rhaglenni ac amcanion amgylcheddol (cynaliadwyedd) perthnasol, gan gynnwys, er enghraifft, y nodau llesiant cenedlaethol ac amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Nodir bod y Polisi Adnoddau Naturiol a'r Cynllun Morol Cenedlaethol yn dal i gael eu datblygu. Pan gaiff y dogfennau hyn eu cyhoeddi, bydd yr arfarniad yn cael ei adolygu yn rhan o broses ailadroddol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Bydd yr adolygiad hwn yn bwydo i mewn wedyn i ddatblygiad pellach Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, a allai gael eu mireinio o ganlyniad.
- Adolygiad o wybodaeth sylfaenol, problemau a chyfleoedd.
- Cyfraniad o ffrydiau arfarnu eraill a nodir yn Adran 1 yr adroddiad hwn, sef: Iechyd, Cydraddoldeb, y Gymraeg, Prawfesur Polisiâu Gwledig, Hawliau Plant, Newid yn yr Hinsawdd a Datblygu Economaidd.
- Profiad o ddatblygu Amcanion Arfarnu Cynaliadwyedd eraill yng Nghymru a thu hwnt.
- Bydd ychwanegiadau at y Fframwaith a bydd yn cael eu addasu ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid, gan gynnwys yr Ymgynghoriad Cwmpasu ffurfiol yn benodol.

Mae Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi cael eu hasesu ar gyfer eu cydweddoldeb mewnol ac mae matrices cydweddoldeb wedi ei gynnwys yn Atodiad C. Diben yr ymarfer hwn yw amlygu

unrhyw botensial o anghydweddoldeb yn gynnwys fel y gellir cydbwysu unrhyw broblemau posibl o fewn y Fframwaith. Mae'r matrices yn dangos bod y cysylltiadau rhwng Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn niwtral ar y cyfan, h.y. dim effaith eglur neu'n cydweddu. Nodwyd rhai agweddau anghydwedd hefyd, a thrafodir y rhain yn fanylach yn Atodiad C.

Mae Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn debygol o gynnwys elfen o wrthdaro neu ansicrwydd wrth roi cynlluniau penodol ar waith. Mae'r broses arfarnu o reidrwydd yn ceisio nodi'r cyfnewidiadau rhwng unrhyw achosion o wrthdaro ac ansicrwydd o'r fath.

Mae Tabl 5-3 yn cyflwyno Amcanion arfaethedig yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r cwestiynau a fydd yn cael eu defnyddio. Nodir y nodau llesiant cyfatebol yn y tabl.

Datblygwyd Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig trwy adolygu'r cynlluniau, rhaglenni ac amcanion diogelu'r amgylchedd yn Atodiad A, dadansoddi'r data sylfaenol yn Atodiad B a nodi'r materion a'r cyfleoedd allweddol yn nhabl 4-1. Arweiniodd y gwaith hwn at nodi themâu allweddol fel y nodir yn nhabl 3-2, sef sail Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Ategir pob un o Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig gan gyfres o gwestiynau i helpu i wneud penderfyniadau a fydd yn cynorthwyo'r broses asesu. Ni chaiff pob un o'r cwestiynau llywio eu defnyddio yn rhan o'r asesiad ar bob cam; bydd hyn yn dibynnu ar yr hyn sy'n cael ei asesu a'u perthnasedd ar y cam hwnnw. Bydd y broses asesu yn dryloyw ac yn glir o ran sut y caiff y cynllun ei ddatblygu a bydd yn nodi'r fethodoleg a ddefnyddiwyd.

Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer asesu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol		
Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig	Cwestiynau sy'n helpu i wneud penderfniad A fydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn....?	Nod Llesiant
1. Annog a chefnogi gwelliannau i gyrhaeddiad addysgol ar gyfer pob grŵp oedran a phob sector o'r gymdeithas er mwyn helpu i wella cyfleoedd am oes	<ul style="list-style-type: none"> <li>Annog a chefnogi cynnydd yn lefelau cyfranogiad a chyrhaeddiad mewn addysg i holl aelodau'r gymdeithas?</li> <li>Annog a chefnogi gwelliant i fynediad at gyfleoedd dysgu gydol oes?</li> <li>Annog a chefnogi gwelliant i ddarpariaeth cyfleusterau addysg a hyfforddiant trwy fentrau cynllunio defnydd tir?</li> </ul>	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
2. Cyfrannu at wella iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol i bawb gan gynnwys cyfrannu at leihau anghydraddoldeb iechyd ledled Cymru	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfrannu at welliant i fynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig mewn ardaloedd anghysbell/gwledig?</li> <li>Cyfrannu at ostyngiad mewn anghydraddoldebau iechyd ymhlith gwahanol grwpiau yn y gymuned gan gynnwys plant a phobl hŷn yn benodol?</li> <li>Cyfrannu at ffyrdd iach o fyw a hybu llesiant gan gynnwys cerdded a seiclo, trwy fentrau cynllunio defnydd tir?</li> <li>Cyfrannu at ostyngiad mewn lefelau tlodi plant a thlodi tanwydd?</li> <li>Cyfrannu at wella mynediad at fannau gwyrdd naturiol, bywyd gwylt a mannau agored, gan gynnwys cyfleoedd i chwarae a hamddena?</li> <li>Cyfrannu at gynydd mewn seilwaith gwyrdd?</li> <li>Creu cyfleoedd i gymunedau addasu i'r risgiau i iechyd yn sgil newid yn yr hinsawdd?</li> </ul>	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus
3. Creu cyfleoedd i gynyddu cyflogaeth ledled y wlad a hybu cynhwysiant economaidd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Creu cyfleoedd i gynyddu cyflogaeth ar draws pob ystod oedran gweithio?</li> <li>Creu cyfleoedd i wella'r mynediad ffisegol at swyddi trwy fentrau cynllunio defnydd tir?</li> <li>Creu cyfleoedd i gynyddu nifer y bobl sy'n fodlon ar eu swyddi?</li> <li>Creu cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad newydd a chynnydd yn nifer y gweithwyr medrus?</li> <li>Cefnogi cyfleoedd i ddatblygu dinas-ranbarthau?</li> </ul>	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer asesu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol		
Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig	Cwestiynau sy'n helpu i wneud penderfniad A fydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn....?	Nod Ilesiant
4. Creu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd, amrywiaeth a chystadleurwydd busnes cynaliadwy	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd cynaliadwy?</li> <li>• Creu cyfleoedd ar gyfer arallgyfeirio yn yr economi ac annog sefydliad busnesau newydd a mewnfuddsoddiad?</li> <li>• Creu cyfleoedd ar gyfer busnesau sy'n weithredol o ran arloesedd<sup>15</sup>?</li> <li>• Creu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy, a'i hyrwyddo, gan fanteisio'n sensitif ar asedau amgylcheddol, diwylliannol, treftadaeth a hamdden?</li> <li>• Creu cyfleoedd i wella'r economi wledig ac arallgyfeirio gwledig (gan gynnwys amaethyddiaeth, coedwigaeth, BBaChau, microfusnesau a datblygiad cysylltedd digidol)?</li> <li>• Creu cyfleoedd i gynnal ac annog gweithgareddau trydydd sector?</li> <li>• Creu cyfleoedd i fusnesau a seilwaith fod yn fwy cydnerth wrth wynebu'r risgiau yn sgil newid yn yr hinsawdd?</li> <li>• Helpu i ddarparu seilwaith ffisegol i gefnogi twf economaidd cynaliadwy, gan gynnwys seilwaith digidol a seilwaith teithio cynaliadwy?</li> </ul>	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
5. Cyfrannu at lesiant y Gymraeg yn y dyfodol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Annog cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg ledled Cymru?</li> <li>• Annog cynnydd yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg sy'n rhugl ledled Cymru?</li> <li>• Annog cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg?</li> </ul>	Cymru lewyrchus Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
6. Creu'r cyfleoedd lle gellir gostwng a chyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ac annog dylunio cynaliadwy ac effeithlon o ran ynni	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu cyfleoedd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o ddatblygiadau presennol a newydd?</li> <li>• Creu cyfleoedd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o safleoedd cynhyrchu pŵer, diwydiannau trwm a thrafnidiaeth?</li> <li>• Creu cyfleoedd lle mae'n ofynnol i ddylunio cynaliadwy fod yn rhan annatod o ddatblygiad newydd?</li> </ul>	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

<sup>15</sup> Fel y diffinnir yn arolwg arloesedd cymunedol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol



Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer asesu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol		
Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig	Cwestiynau sy'n helpu i wneud penderfniad A fydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn....?	Nod Ilesiant
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu cyfleoedd i leihau'r galw am ynni a chynyddu effeithlonrwydd ynni?</li> <li>• Creu cyfleoedd i gynyddu'r potensial i greu ffynonellau ynni carbon isel neu ddi-garbon?</li> </ul>	
7. Cyfrannu at leihau a rheoli perygl llifogydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrannu at leihau a rheoli perygl llifogydd a chodi ymwybyddiaeth ohono?</li> <li>• Annog pob datblygiad newydd i fod yn gydnerth yn wyneb newid yn yr hinsawdd?</li> <li>• Hyrwyddo manteision seilwaith gwyrdd, sy'n gallu cynnwys rheoli perygl llifogydd cynaliadwy?</li> <li>• Creu cyfleoedd i gymunedau mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd ar hyn o bryd i fod yn fwy cydnerth yn wyneb perygl llifogydd?</li> <li>• Cyfeirio pob datblygiad newydd i ffwrdd o ardaloedd lle ceir perygl mawr o lifogydd?</li> </ul>	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
8. Creu cyfleoedd i annog gwaith i ddiogelu a gwella ansawdd aer	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu cyfleoedd i wella a diogelu ansawdd aer?</li> <li>• Lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer newydd?</li> <li>• Creu cyfleoedd lle gellir lleihau'r allyriadau posibl o gynhyrchu pŵer, trafnidiaeth a diwydiant trwm?</li> <li>• Creu cyfleoedd i sicrhau nad yw ansawdd aer gwael yn effeithio'n anghymesur ar y cymunedau mwyaf agored i niwed?</li> <li>• Creu cyfleoedd i sicrhau nad yw llygredd aer yn effeithio'n andwyol ar gynefinoedd sensitif ac adnoddau dŵr?</li> </ul>	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
9. Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella ansawdd a nifer y nodweddion a'r adnoddau dŵr	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella ansawdd dŵr daear a dŵr wyneb a faint ohono sydd ar gael?</li> <li>• Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella dyfrffyrdd yn rhan o rwydwaith seilwaith gwyrdd ehangach?</li> <li>• Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella dyfroedd arfordirol?</li> <li>• Creu cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau dŵr yn gynaliadwy mewn lleoliadau cartref a diwydiannol?</li> <li>• Creu cyfleoedd i leihau'r peryglon i adnoddau dŵr a'r seilwaith cyflenwi yn sgil newid yn yr hinsawdd?</li> <li>• Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella ansawdd nodweddion ac adnoddau dŵr a</li> </ul>	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer asesu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol		
Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig	Cwestiynau sy'n helpu i wneud penderfniad A fydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn....?	Nod Ilesiant
	<p>chefnogi prosesau integredig o wneud penderfyniadau yn yr amgylchedd morol?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cefnogi cydweithio a phrosesau integredig o wneud penderfyniadau ar draws cydgylltiadau tir a môr ac ar draws ffiniau?</li> </ul>	
10.Creu cyfleoedd i wella cysylltedd cymunedau a mynediad cynaliadwy at nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau sylfaenol i bob grŵp.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Creu cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus integredig a chynhwysol sy'n diwallu anghenion pobl?</li> <li>Creu cyfleoedd i ddarparu seilwaith priffyrdd (gan gynnwys llwybrau cerdded a beicio) sy'n diwallu anghenion pobl, gan gynnwys defnydd busnes, masnachol a phersonol?</li> <li>Creu cyfleoedd i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy ac annog gostyngiad yn y ddibyniaeth ar y car preifat?</li> <li>Creu cyfleoedd i wella mynediad at gyfleusterau diwylliannol a hamdden?</li> <li>Creu cyfleoedd i ddarparu seilwaith cysylltedd digidol newydd a gwella'r seilwaith presennol?</li> <li>Creu cyfleoedd i gynnal a gwella mynediad at wasanaethau a chyfleusterau hanfodol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig?</li> <li>Creu cyfleoedd i leihau'r peryglon yn sgil newid yn yr hinsawdd?</li> </ul>	<p>Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</p>
11.Creu cyfleoedd lle gellir gwella cydlyniant cymdeithasol a chydaddoldeb	<ul style="list-style-type: none"> <li>Creu cyfleoedd lle gellir gwella cydlyniant cymdeithasol a chydaddoldeb?</li> <li>Creu cyfleoedd lle gellir gwella cydraddoldeb ar sail cefndir neu amgylchiadau?</li> <li>Creu cyfleoedd lle gellir lleihau anghydaddoldeb ar sail rhyw?</li> <li>Creu cyfleoedd lle gellir lleihau anghydaddoldeb ar sail oedran?</li> <li>Creu cyfleoedd lle gellir gwella anghydaddoldeb ar sail anabledd?</li> <li>Creu cyfleoedd i blant sydd ag unrhyw fath o anabledd fyw bywydau llawn ac annibynnol?</li> <li>Creu cyfleoedd i blant ddatblygu'n iach, a chael mynediad at ofal iechyd o ansawdd da, dŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân?</li> <li>Creu cyfleoedd i sicrhau y gall plant fyw i safon sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol?</li> <li>Creu cyfleoedd i sicrhau bod gan blant fynediad at addysg?</li> </ul>	<p>Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</p>

Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer asesu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol		
Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig	Cwestiynau sy'n helpu i wneud penderfniad A fydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn....?	Nod Ilesiant
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu cyfleoedd i sicrhau y gall plant ymlacio a chwarae, a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau?</li> <li>• Creu cyfleoedd i ddatblygu cymunedau cryf a chydlynus?</li> <li>• Creu cyfleoedd i leihau lefelau troseddu a'r ofn o droseddu?</li> <li>• Creu cyfleoedd i wella nifer y bobl sy'n fodlon ar eu cymdogaethau fel lleoedd i fyw?</li> <li>• Creu cyfleoedd i bobl hŷn ac anabl i gymryd rhan yn eu cymunedau a'r gymdeithas ehangach?</li> <li>• Creu cyfleoedd i leihau unigedd yn y gymdeithas?</li> <li>• Creu cyfleoedd i ddylunio'r amgylchedd adeiledigmewn modd sy'n briodol i bawb?</li> </ul>	
12.Creu cyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy diogel o ansawdd da sy'n diwallu anghenion a nodwyd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu cyfleoedd i ddarparu llety digonol i ddiwallu anghenion a nodwyd ym mhob ardal?</li> <li>• Creu cyfleoedd i ddarparu tai o ansawdd da?</li> <li>• Creu cyfleoedd i gynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael?</li> <li>• Creu cyfleoedd lle gellir diwallu anghenion tai gwledig?</li> <li>• Creu cyfleoedd lle mae lefelau digartrefedd yn gostwng?</li> <li>• Creu cyfleoedd lle ceir gostyngiad yn nifer yr aelwydydd sydd mewn tloedi incwm neu amddifadedd sylweddol?</li> </ul>	Cymru lewyrchus Cymru gydnherth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
13.Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella nodweddion unigryw lleol ein tirweddau, trefluniau a'n morweddau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella ardaloedd o gymeriad, unigrywedd, amrywiaeth ac ansawdd tirwedd a morwedd?</li> <li>• Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella cymeriad ac ansawdd trefluniau, gan gynnwys trefluniau hanesyddol?</li> <li>• Creu cyfleoedd i hyrwyddo dylunio sensitif, sy'n ymatebol i'r lle hwnnw, yn yr holl waith datblygu/ailldatblygu?</li> </ul>	Cymru lewyrchus Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar

Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer asesu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol		
Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig	Cwestiynau sy'n helpu i wneud penderfniad A fydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn....?	Nod Ilesiant
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu cyfleoedd i leihau llygredd sŵn a golau?</li> <li>• Creu cyfleoedd i gynnal ardaloedd o dawelwch<sup>16</sup>?</li> <li>• Creu cyfleoedd i annog lleoedd a rhwydweithiau sydd wedi eu cynllunio'n dda ac sy'n hygyrch i bobl a natur yn ein trefluniau?</li> <li>• Creu cyfleoedd i dirweddau fod yn fwy cydnerth yn wyneb effeithiau newid yn yr hinsawdd?</li> </ul>	lefel fyd-eang
14.Creu cyfleoedd i ddiogelu, gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol, asedau hanesyddol a'u lleoliadau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu cyfleoedd i ddiogelu, gwarchod a gwella asedau hanesyddol dynodedig a rhai nad ydynt wedi eu dynodi, fel y diffinir yn yr eirfa?</li> <li>• Creu cyfleoedd i hyrwyddo asedau hanesyddol, fel bod mwy o fynediad, dealltwriaeth a mwynhad o'r rhain i bawb?</li> <li>• Creu cyfleoedd i wneud gwaith adfywio a arweinir gan dreftadaeth?</li> <li>• Creu cyfleoedd i warchod a gwella tirweddau hanesyddol Cymru?</li> </ul>	Cymru lewyrchus Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
15.Creu cyfleoedd i ddiogelu a hybu diwylliant Cymru	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu cyfleoedd lle gall diwylliant Cymru ffynnu, trwy fentrau cynllunio defnydd tir?</li> <li>• Creu cyfleoedd i gael mynediad at asedau a gweithgareddau diwylliannol a threftadaeth Cymru?</li> <li>• Cydnabod, diogelu, hybu a gwella diwylliant Cymru?</li> <li>• Creu cyfleoedd i wneud gwaith adfywio a arweinir gan ddiwylliant?</li> </ul>	Cymru lewyrchus Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
16.Creu cyfleoedd i warchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu cyfleoedd i sefydlu rhwydweithiau ecolegol mwy cydlynol a chydnerth ar dir er budd bywyd gwylt a phobl, a gwella gwasanaethau ecosystemau?</li> <li>• Creu cyfleoedd i gynyddu nifer ac amrywiaeth ecosystemau gweithredol?</li> <li>• Creu cyfleoedd i gynyddu cydnerthed ecosystemau a'u gallu i addasu?</li> <li>• Creu cyfleoedd i warchod a gwella safleoedd cadwraeth natur, cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig a rhai nad ydynt wedi'u dynodi?</li> </ul>	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

<sup>16</sup> Ffigur 7-1 yn Atodiad B

Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer asesu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol		
Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig	Cwestiynau sy'n helpu i wneud penderfniad A fydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn....?	Nod Ilesiant
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu cyfleoedd i warchod a gwella ecosystemau morol?</li> <li>• Creu cyfleoedd i warchod a gwella ansawdd mannau gwyrdd naturiol?</li> <li>• Creu cyfleoedd i ddiogelu, gwarchod a hybu geoamrywiaeth er mwyn i bawb allu ei chyrraedd, ei deall a'i mwynhau yn fwy?</li> <li>• Creu cyfleoedd i rywogaethau a chynefinoedd addasu i amodau hinsoddol sy'n newid?</li> </ul>	
17. Creu cyfleoedd i reoli a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ystyried eu buddion a'u gwerth cynhenid	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu cyfleoedd i ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu a deunyddiau eilaidd mewn gwaith adeiladu?</li> <li>• Creu cyfleoedd i ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy o ffynonellau leol?</li> <li>• Creu cyfleoedd i lanhau tir halogedig ac atal halogiad pellach?</li> <li>• Creu cyfleoedd i gyfrannu at reoli tir fferm, coedwigoedd a chefn gwlad ehangach yn gynaliadwy?</li> <li>• Creu cyfleoedd i leihau gwastraff peryglus?</li> <li>• Creu cyfleoedd lle gall ansawdd pridd gael ei gynnal a/neu ei wella?</li> <li>• Creu cyfleoedd i ddiogelu mawndir?</li> <li>• Creu cyfleoedd i ddiogelu adnoddau mwynol a warchodir?</li> <li>• Creu cyfleoedd i ddatblygu tir llwyd pan fo hynny'n gynaliadwy?</li> <li>• Creu cyfleoedd i gynyddu cyfran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu a'i aildefnyddio?</li> <li>• Creu cyfleoedd i leihau cyfran a chyfanswm y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi?</li> <li>• Cynyddu cydnherthed ecosystemau?</li> <li>• Gwella darpariaeth atebion sy'n seiliedig ar natur i wella ansawdd aer, addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd, rheoli perygl llifogydd, a gwella iechyd a llesiant?</li> </ul>	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

### 5.2.2 Sylw i Bynciau'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol fesul Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Tabl 5-4 Pynciau'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol a phrif amcanion perthnasol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Pwnc y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol	Prif Amcan(ion) yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig	Sgriniwyd i mewn?
Bioamrywiaeth	7, 9, 16 a 17	Do
Poblogaeth	1, 2, 3, 4, 5, 10, 11, 12 a 15	Do
Iechyd Pobl	1, 2, 3, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 15, 16 a 17	Do
Anifeiliaid	7, 9 ac 16	Do
Planhigion	7, 9 ac 16	Do
Pridd	7, 9, 13, 16 a 17	Do
Dŵr	6, 7, 9, 16 a 17	Do
Aer	6, 8 a 10	Do
Ffactorau Hinsoddol	2, 4, 6, 7, 8, 9, 10, 13, 16 a 17	Do
Asedau Perthnasol	3, 4, 6, 9, 12, 13, 14, 16 a 17	Do
Treftadaeth Ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol	5, 13, 14 a 15	Do
Tirwedd	7, 13, 14 a 17	Do

### 5.2.3 Sylw i'r asesiadau effaith integredig eraill fesul Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd

Tabl 5-5 Asesiadau effaith integredig a phrif amcanion perthnasol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Asesiad Effaith	Prif Amcan(ion) yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig	Sgriniwyd i mewn?
Iechyd	1, 2, 3, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16 a 17	Do
Cydraddoldeb	1, 2, 3, 4, 10, 11 a 12	Do
Y Gymraeg	5	Do
Prawfesur Polisiâu Gwledig	2, 3, 4, 5, 10, 11, 12, 13, 16 a 17	Do
Hawliau Plant	1, 2, 3, 10, 11 a 12	Do

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Newid yn yr Hinsawdd	2, 3, 4, 6, 7, 8, 9, 10, 13, 16 a 17	Do
Datblygu Economaidd	1, 3, 4, 6 a 17	Do



## 6 Y Camau Nesaf

### 6.1 Cyffredinol

Mae'r Adroddiad Cwmpasu hwn wedi amlinellu sut y bwriedir cynnal yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Hwn yw'r Adroddiad Cwmpasu Terfynol, sy'n cynnwys canfyddiadau ymgynghoriad cyhoeddus a barodd deuddeng wythnos. Mae'r ymatebion i sylwadau'r ymgynghoreion, a sut y maent wedi llywio'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, wedi eu cofnodi a'u cyflwyno mewn adroddiad cryno o'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru [yma](#).

Y cam nesaf i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yw'r Materion, Opsiynau ac Opsiwn a Ffefrir. Bydd Adroddiad Interim yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cael ei gyhoeddi ac yn destun ymgynghoriad ochr yn ochr â hyn. Bydd adroddiad interim yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn:

- Dangos sut y mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi llunio datblygiad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol;
- Cyflwyno'r fethodoleg ar gyfer yr arfarniad;
- Cyflwyno'r opsiynau a ystyriwyd, sut y cawsant eu nodi ac unrhyw fesurau lliniaru a gynigir
- Cyflwyno effeithiau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol y Materion a'r Opsiynau a'r Opsiwn a Ffefrir; ac yn
- Disgrifio'r cynigion ar gyfer monitro.

Mae rhagor o wybodaeth am gamau pellach proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gael yn Adran 2.1 yr adroddiad hwn.

## **ATODIAD A**

Adolygiad o Gynlluniau, Rhaglenni ac Amcanion Diogelu'r Amgylchedd Perthnasol

## **ATODIAD B**

Data Sylfaenol, Materion Allweddol a Chyfleoedd

## ATODIAD C

### Cydweddoldeb Mewnol Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Mae 17 Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi cael eu profi ar gyfer eu cydweddoldeb â'i gilydd. Aseswyd yn gyffredinol bod cydweddoldeb mewnol Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn niwtral h.y. dim effaith eglur neu'n gadarnhaol, gan eu bod oll yn ceisio gwella ansawdd yr amgylchedd a chynaliadwyedd yng Nghymru. Fodd bynnag, aseswyd bod cydweddoldeb rhai o Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn ansicr. Amlinellir yr agweddau ansicr hyn yn y paragraffau isod.

Sgoriwyd ansicrwydd yn erbyn Amcan 6 yr Arfarniad Cynaliadwyedd 'Creu cyfleoedd lle gellir lleihau a chyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ac annog dylunio effeithlon o ran ynni a chynaliadwy' ac Amcan 13 yr Arfarniad Cynaliadwyedd 'Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella unigrywedd lleol ein tirweddau, trefluniau a morweddau' oherwydd y gall darparu seilwaith ynni adnewyddadwy fel tyrbinau gwynt effeithio ar gymeriad ac ansawdd y dirwedd.

Aseswyd bod y cydweddoldeb yn ansicr hefyd rhwng Amcan 12 yr Arfarniad Cynaliadwyedd 'Creu cyfleoedd i ddarparu tai diogel, fforddiadwy, o ansawdd da sy'n diwallu anghenion a nodwyd' a'r amcanion canlynol:

- 13 Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella unigrywedd lleol ein tirweddau, trefluniau a morweddau;
- 14 Creu cyfleoedd i ddiogelu, gwarchod a gwella yr amgylchedd hanesyddol, asedau hanesyddol a'u lleoliadau;
- 16 Creu cyfleoedd i warchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth; a
- 17 Creu cyfleoedd i reoli a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ystyried eu buddion a'u gwerth cynhenid.

Aseswyd y sgoriau'n ansicr oherwydd bod gan ddatblygiad preswyl newydd y potensial i effeithio'n andwyol ar adnoddau bioamrywiaeth trwy gymryd tir yn uniongyrchol; unigrywedd tirwedd ac asedau treftadaeth trwy leoli amhriodol ac adnoddau naturiol trwy alw cynyddol am ddeunyddiau crai.

### Cydweddoldeb Mewnol Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig	1																
	2																
	3	+															
	4	+		+													
	5	+															
	6																
	7		+				+										
	8		+				+	+									
	9		+					+									
	10	+	+		+		+	+	+								
	11		+	+				+			+						
	12		+					+			+	+					
	13		+				?	+		+	+		?				
	14					+					+		?	+			
	15		+			+								+	+		
	16		+				+	+	+	+	+		?	+			
	17		+		+		+	+		+			?	+			
	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15	16	17
Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig																	

Mae'r amcanion yn cydweddu = +  
 Anghydwedd ar y ddwy ochr = -  
 Cydweddoldeb yn anhysbys = ?  
 Dim effaith eglur ar ei gilydd = (gwag)

Rhestrir 17 Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig isod:

1. Annog a chefnogi gwelliannau i gyrhaeddiad addysgol ar gyfer pob grŵp oedran a phob sector o'r gymdeithas er mwyn helpu i wella cyfleoedd am oes	7. Cyfrannu at leihau a rheoli perygl llifogydd	13. Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella unigrywedd lleol ein tirweddau, trefluniau a morweddau
2. Cyfrannu at welliant i iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol i bawb, gan gynnwys lleihau anghydraddoldeb iechyd ledled Cymru	8. Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella ansawdd aer	14. Creu cyfleoedd i ddiogelu, gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol, asedau hanesyddol a'u lleoliadau
3. Creu cyfleoedd i gynyddu cyflogaeth ledled y wlad a hybu cynhwysiant economaidd	9. Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella ansawdd nodweddion ac adnoddau dŵr a faint ohonynt sydd ar gael	15. Creu cyfleoedd i ddiogelu a hybu diwylliant Cymru
4. Creu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd cynaliadwy, amrywiaeth a chystadleurwydd busnes cynaliadwy	10. Creu cyfleoedd i wella cysylltedd cymunedau a mynediad cynaliadwy at nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau sylfaenol i bob grŵp	16. Creu cyfleoedd i warchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth
5. Cyfrannu at lesiant y Gymraeg yn y dyfodol	11. Creu cyfleoedd lle gellir gwella cydlyniant cymdeithasol a chydaddoldeb	17. Creu cyfleoedd i reoli a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy gan ystyried eu buddion a'u gwerth cynhenid
6. Creu cyfleoedd lle gellir lleihau a chyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ac annog dylunio cynaliadwy ac effeithlon o ran ynni	12. Creu cyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy diogel o ansawdd da sy'n diwallu anghenion a nodwyd	